Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-12

Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-12

(Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 6 (4) o
Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredin
trwy Orchymyn ei Mawrhydi

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi trwy Orchymyn ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu**

7 Medi 2012

HC 28 Llundain: Y Llyfrfa £21.25

**© Hawlfraint y Goron 2012**

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint drydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac o'n gwefan www.walesoffice.gov.uk.

ISBN: 9780102978735

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited

ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

ID 2494720 09/12 21249

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys a ailgylchwyd.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1:** | **Rhagair gan y Gweinidog** | 1 |
| **Pennod 2:** | **Datganiad y Cyfarwyddwr** | 3 |
| **Pennod 3:** | **Cyflawniadau yn ôl Amcan** | 4 |
| **Pennod 4:** | **Edrych ymlaen at 2012-13** | 20 |
| **Pennod 5:** | **Sylwebaeth Rheoli** | 21 |
| **Pennod 6** | **Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** | 23 |
| **Pennod 7** | **Adroddiad Tâl** | 28 |
| **Pennod 8** | **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | 39 |
| **Pennod 9** | **Datganiad ar Llywodraethu** | 40 |
| **Pennod 10** | **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin** | 50 |
| **Pennod 11** | **Cyfrifon** | 53 |
| | Datganiad o Gyflenwad Seneddol | |
| | Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | |
| | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | |
| | Datganiad o Lifau Arian | |
| | Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr | |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon | |

# 1 Rhagair gan y Gweinidog

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o weithgarwch mawr ar draws y Llywodraeth. Mae mesurau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r diffyg a etifeddwyd yn heriol i holl adrannau'r Llywodraeth ac mae Swyddfa Cymru hefyd wedi chwarae ei rhan. Mae gan Lywodraeth EM a Llywodraeth Cymru wahanol safbwyntiau gwleidyddol, a bydd cydweithio yn aml yn golygu ymdrechion i oresgyn y dimensiwn gwleidyddol hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf wedi ymroddi i sicrhau perthynas dda, â'r ddwy Lywodraeth, ar lefel Gweinidogaethol a swyddogol, i gydweithio er lles Cymru.

Eleni (ac o fewn 18 mis o'r Etholiad Cyffredinol diwethaf) cyflawnodd Swyddfa Cymru'r olaf o'r tri ymrwymiad yng nghytundeb y Glymblaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol i Gymru. Ar ôl llwyddo i gyflawni'r Refferendwm ar bwerau'r Cynulliad ym Mawrth 2011 a datganoli pwerau tai yn y flwyddyn flaenorol, sefydlais Gomisiwn annibynnol dan gadeiryddiaeth Paul Silk, sy'n hysbys erbyn hyn fel Comisiwn Silk. Bydd yn ystyried materion cyllido, atebolrwydd, a'r fframwaith ynghylch ble mae pwerau'n gorwedd, gan adrodd ar Ran 1 o'i waith yn Hydref 2012 ac ar Ran 2 yn 2014.

Fe lwyddasom i gael y buddsoddiad mwyaf mewn seilwaith yng Nghymru ers degawdau gan Lywodraeth y DU. Bydd trydanu prif linell rheilffordd De Cymru, yn gyntaf i Gaerdydd ac erbyn hyn i Abertawe a llinellau'r Cymoedd, ynghyd â chysylltiad o Heathrow i Dde Cymru, yn rhoi system gludiant fodern i Gymru â chysylltiadau rhagorol â'r DU a'r byd ehangach. Mae tua 95,000 o bobl wedi'u heithrio rhag talu treth incwm yn gyfan gwbl a chafwyd cyllid sylweddol gan Lywodraeth y DU i wella band llydan a 4G symudol ar draws Cymru, yn ogystal â £12m ychwanegol i gefnogi darpariaeth band llydan tra chyflym yng Nghaerdydd.

Fe wnaethom weithio'n galed hefyd i ddiogelu ôl troed milwrol cryf Cymru. Roeddwn yn falch fod Adolygiad Byddin 2020 dan arweiniad milwyr wedi arwain at Gymru'n cadw'r Gwarcholdu Cymreig, Gwarchodlu Dragwn y Frenhines, Bataliwn Cyntaf y Cymry Brenhinol a rôl gwell ar gyfer Brigâd 160 (Cymru). Un newid fydd uno dwy fataliwn Catrawd y Cymry Brenhinol i sicrhau y bydd ein Byddin yn gallu addasu ar gyfer yr heriau sydd o'n blaen, ac mae'n dda gweld fod catrawdau Cymru yn dal â lle canolog ym Myddin Prydain.

Mae sefydlogrwydd economaidd a chyllidol y Deyrnas Unedig yn dal yn brif flaenoriaeth y Llywodraeth. Mae Grŵp Cynghori Swyddfa Cymru eisoes wedi cyfarfod deirgwaith eleni, â chafwyd cyfraniadau o bob rhan o ddiwydiant i ystyried amgylchiadau economaidd Cymru. Mae gwaith y grŵp hwn yn bwydo i mewn i Grŵp Cynghori Busnes y DU a gadeirir gan y Prif Weinidog.

Mae diweithdra'n dal yn uchel, ond bu rhai arwyddion cadarnhaol i Gymru yn adroddiadau diweddar y farchnad lafur. Mae polisïau'r Llywodraeth yn cynorthwyo i ddod o hyd i waith yn ogystal â chynnig cyfleoedd i fusnesau fuddsoddi, a chreu neu gynnal swyddi. Rwyf wedi gweld drosof fy hun yn gwaith sy'n cael ei wneud, ac mae cydweithio rhwng Llywodraethau yn hanfodol i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r sawl sydd wedi cael trafferth cael waith yn y gorffennol, a'r rhaglenni preintisiaeth sy'n helpu pobl ifanc i ennill profiad gwerthfawr, yn elfennau allweddol i adfer dyfodol economaidd Cymru. Rydym ninnau yn Swyddfa Cymru yn chwarae ein rhan, ac rydym wedi recriwtio dau brentis.

Fel gwarcheidwad y setliad datganoli, mae Swyddfa Cymru'n ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru i annog buddsoddi er mwyn sicrhau twf economaidd yng Nghymru. Mae cydweithio'n hanfodol. Fel Gweinidog y Cabinet rwyf yn gallu trafod materion â'm cydweithwyr ar draws y Llywodraeth gan froceru datrysiadau. Mae hwn yn gyswllt allweddol i Gymru ac rydym yn gweithio'n barhaus i sicrhau y gwnaiff Cymru bara yn ganolog i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd fy Adran yn cysylltu'n agos ag Adrannau eraill y llywodraeth, ac mae Cymru'n elwa'n uniongyrchol o'r cyswllt hwnnw.

Rwyf wedi teithio'n helaeth ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn, gan gwrdd â phobl o bob cefndir. Roeddwn yn arbennig o falch i gyflwyno'r dystysgrif i enillydd cyntaf Gwobr Cymdeithas Fawr y Prif Weinidog o Gymru, ac yn y flwyddyn Jiwbilî hon gobeithiaf y caiff cyrff gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghymru eu cydnabod hefyd am eu cyfraniad hanfodol i gymdeithas.

Nid yw 2011/12 wedi bod heb ei thristwch. Rydym yn cofio am ac yn talu gwrogaeth i'r aelodau hynny o'n lluoedd arfog a fu farw wrth wasanaethu eu gwlad yn anhunanol. Ni all unrhyw eiriau adlewyrchu ein balchder a'n diolch am eu haberth. Ni anghofir dau ddigwyddiad arall ychwaith: y golled drychinebus o fywyd ym Mhurfa Chevron a marwolaethau pedwar glöwr yn y ddamwain yng Nglofa Gleision. Roeddent oll yn bobl falch wrth eu gwaith a fu farw o flaen eu hamser.

Er bod Swyddfa Cymru wedi cyflawni llawer dros Gymru yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ddarparu mwy a lleihau costau, mae llawer i'w wneud o hyd. Rwy'n parhau i fod yn ymroddedig i weithio gyda fy nghydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn Ewrop ac yn Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y penderfyniadau a wnawn er lles y genedl - er lles Cymru a'r Deyrnas Unedig ill dau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff ymroddedig yn Swyddfa Cymru am eu gwaith caled a'u dyfalbarhad, ac hefyd i David Jones AS am ei gyfraniad ardderchog fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (PUSS) yn yr Adran, a fy Ysgrifennydd Preifat Seneddol, Glyn Davies AS. Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur arall a chyflawni dros Gymru fel un o wledydd allweddol y Deyrnas Unedig.

**Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# 2 Datganiad y Cyfarwyddwr

Rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Cymru 2011–12, wedi'u cynhyrchu am y tro cyntaf fel un ddogfen.

Swyddfa Cymru yw un o'r Adrannau Gwladol lleiaf. Er gwaethaf ei maint cymedrol, rydym wedi llwyddo i gyflawni pob un o'r tri ymrwymiad yn 'Rhaglen ar gyfer Llywodraethu' y glymblaid roedd Swyddfa Cymru â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt. Y rhain oedd: cyflwyno refferendwm ar ragor o ddatganoli i Gymru, symud y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cartrefi Cynaliadwy yn ei flaen, ac yn fwy diweddar, sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman ar gyfer Cynulliad Cymru. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn amcanion allweddol eraill a amlinellwyd yn ein Cynllun Busnes 4 blynedd cyhoeddedig, oll wedi'u cyflawni o fewn y gyllideb ac yn unol â'n targedau ar gyfer effeithlonrwydd.

Ni fyddai hyn oll wedi bod yn bosibl heb ymdrechion pob un o'r rhai hynny sy'n gweithio yn Swyddfa Cymru y mae eu eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad i lwyddo wedi galluogi'r Adran i berfformio'n dda yn erbyn ein Cynllun Busnes ac i barhau i gefnogi Gweinidogion Swyddfa Cymru hyd eithaf ein gallu.

**Fiona Adams Jones**
**Cyfarwyddwraig, Swyddfa Cymru**

# 3 Cyflawniadau yn ôl amcan 2011-12

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi gweld Swyddfa Cymru'n adeiladu ar ei llwyddiant yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn cynnwys refferendwm ar ragor o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyhoeddiadau o fuddsoddiadau seilwaith arwyddocaol megis trydanu'r rheilffordd a band llydan.

Yn fwyaf nodedig, cyflawnon y trydydd ymrwymiad, a'r un terfynol, a oedd gan Swyddfa Cymru yn 'Rhaglen ar gyfer Llywodraethu' y Llywodraeth: "sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru". Yn sgil ymgynghori ag arweinwyr pleidiau yn y Cynulliad, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Hydref 2011 aelodaeth a chylch gorchwyl y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru, dan arweiniad Paul Silk ('Comisiwn Silk'). Ar hyn o bryd mae Comisiwn Silk yn ystyried y mater o atebolrwydd ariannol, gan anelu at gyflwyno'i adroddiad yn Hydref 2012. Yna bydd y Comisiwn yn symud ymlaen at Ran II ei waith – adolygu ffiniau'r setliad datganoli gan gymeradwyo unrhyw addasiadau sy'n debygol o gael cefnogaeth sylweddol. Mae Swyddfa Cymru'n parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a darparu adnoddau i'r Comisiwn, yn ogystal ag yn y trafodaethau rhynglywodraethol presennol ar ddiwygio cyllid.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi cymryd rhan weithredol mewn datblygiadau cyfansoddiadol eraill, fel paratoi Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol. Rydym wedi cynnig cyngor i nifer o Adrannau'r Llywodraeth ar amrediad o faterion sy'n ymwneud â setliad datganoli Cymru, gan lunio cyfarwyddyd ar gyfer pob Adran ar y newidiadau i'r setliad yn sgil y refferendwm. Rydym hefyd wedi adolygu'r Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli yn sylweddol.

Mae rôl Swyddfa Cymru fel ffynhonnell o gyngor arbenigol yn ymestyn y tu hwnt i gyfarwyddyd ar delerau manwl y setliad. Mae'n hanfodol bod cydweithredu ac ymgynghori effeithiol rhwng Adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall a Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ein hymdrechion i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch datganoli Cymru ar draws Whitehall. Fe wnaethom annog sefydlu Rhwydwaith Gweinidogion Datganoli, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weinidog. Mae'r rhwydwaith hwn yn cydgysylltu dull Llywodraeth EM o ymdrin â'r setliadau datganoli yn y DU yn ogystal â darparu atebolrwydd gweinidogol uniongyrchol am faterion datganoli o fewn pob Adran.

Rydym wedi parhau i fod yn drylwyr wrth helpu sicrhau fod deddfwriaeth Seneddol yn adlewyrchu anghenion Cymru'n llawn ac yn gyson â'r setliad datganoli. Roedd gan y mwyafrif o'r Mesurau yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth oblygiadau i Gymru, ac fe wnaethom gyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad deddfwriaeth fel Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r cyfraniad

hwnnw'n parhau wrth i ddarnau amrywiol o is-ddeddfwriaeth sy'n codi o'r Ddeddf gael eu creu.

Mae economi Cymru wedi parhau yn un o brif flaenoriaethau'r Adran. Rydym wedi parhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Cynghori Busnes yr Ysgrifennydd Gwladol, a chefnogi Gweinidogion yn yr ymweliadau a'r cyfarfodydd rheolaidd gyda busnesau Cymru. Rydym wedi gweithio'n agos ag UKTI ac eraill i gynyddu cyfleoedd mewnfuddsoddi i Gymru, ac â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i helpu sicrhau bod yr Arolwg Twf yn cyflawni buddion gwirioneddol i Gymru. Rydym hefyd wedi ymateb yn egnïol Her Biwrocratiaeth y Llywodraeth.

Yn ogystal â'r economi, rydym wedi gweithio'n agos ag Adrannau eraill y Llywodraeth mewn amrediad o feysydd polisi i sicrhau bod lles Cymru yn cael sylw ac ystyriaeth deilwng. Roedd y rhain yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth, diwygio'r gyfundrefn lles, ynni, yr Arolwg Strategol i Amddiffyn a Diogelwch, a darlledu (yn arbennig S4C). Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol i Gymru a sefydlom raglen o ymweliadau gan Weinidogion y Llywodraeth i amlygu popeth sydd gan Gymru i'w gynnig, wrth nesáu at y Gemau Olympaidd a dathliadau'r Jiwbili Deimwnt. Fe wnaethom ddarparu cefnogaeth bellach i'r diwydiant trwy helpu Cynghrair Twristiaeth Cymru wrth drefnu derbyniad yn Llundain yn Chwefror 2012. Gan adlewyrchu'r pwysigrwydd mae Gweinidogion Swyddfa Cymru'n ei osod ar gymunedau gwledig, cyhoeddodd Swyddfa Cymru adroddiad ar yr economi gwledig yng Nghymru yng Ngorffennaf 2011. Un o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad oedd y diffyg band llydan dibynadawy mewn llawer o ardaloedd gwledig. Roedd ein casgliadau'n rhan o'r achos a berswadiodd y Llywodraeth i gyhoeddi bron iawn £57 miliwn o gyllid ar gyfer band llydan i Gymru i gynorthwyo i ddarparu band llydan i ragor o ardaloedd. Yn ychwanegol, dewiswyd Caerdydd fel un o 14 dinas i gael hyd at £12 miliwn i gyflwyno band llydan tra chyflym, â'r potensial i Gasnewydd ac Abertawe ddilyn hefyd.

Mae Swyddfa Cymru wedi bod ar flaen y gad ynghylch ymdrechion i hyrwyddo gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yng Nghymru. Ym Medi trefnom Seminar y Gymdeithas Fawr ar gyfer Cymru gyfan, a ddaeth â bron iawn hanner cant o gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil ynghyd i drafod sut y gallem oll sicrhau y byddai Cymru'n elwa o'r newidiadau cadarnhaol a amlinellir yng ngweledigaeth y Gymdeithas Fawr. Dyma'r tro cyntaf erioed i Swyddfa Cymru gynnal digwyddiad o'r fath. Yn dilyn y seminar, ffurfiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Fforwm Cymdeithas Fawr Swyddfa Cymru, grŵp o unigolion â phrofiad o faterion y Gymdeithas Fawr.

Mae ymweliadau gweinidogol yn dal yn ddull hanfodol y gall pobl a busnesau yng Nghymru ei ddefnyddio i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Llywodraeth. Rydym wedi cefnogi ein gweinidogion wrth iddynt deithio ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â hwyluso sawl ymweliad gan Weinidogion eraill y Llywodraeth. Roedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol rôl ganolog wrth ddod â'r Cabinet i Gymru yng Ngorffennaf 2011, a oedd yn cynnwys anerchiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Prif Weinidog. Fe wnaethom hefyd drefnu Cyfarfod Cyntaf yr Uwch-bwyllgor Cymreig yng Nghymru ers 2001.

# Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru'n amlinellu ein gwaith dan bedwar amcan:

## *Amcan 1: Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru.*

Roedd gan Swyddfa Cymru rôl allweddol trwy gydol y flwyddyn wrth helpu cyflawni rhaglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu democrataidd a gwleidyddol. Fe wnaethom gynnig cyngor arbenigol i Adrannau eraill y Llywodraeth ar y rhyngwyneb rhwng polisi a deddfwriaeth datganoledig ac annatganoledig, gan weithredu i hyrwyddo a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a sefydliadau datganoledig yng Nghymru.

***Helpu cyflawni rhaglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu democrataidd a gwleidyddol yng Nghymru.***

Mae Swyddfa Cymru'n gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod datblygiadau cyfansoddiadol yn ystyried Cymru a buddiannau Cymru yn llawn.

Er enghraifft, sefydlodd Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 Seneddau tymor penodol am bum mlynedd. Bydd yr etholiad nesaf i Dŷ'r Cyffredin yn digwydd ar 7 Mai 2015, oni bai y gelwir Etholiad Cyffredinol eithriadol cyn y dyddiad hwnnw, a phob pum mlynedd wedi hynny. Hefyd fe wnaeth y Ddeddf ddarpariaeth i'r Cynulliad presennol gael tymor o bum mlynedd (yn hytrach na'r pedair blynedd arferol), i sicrhau nad yw etholiad trefnedig nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn digwydd ar yr un diwrnod. Cytunodd y Llywodraeth i gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Mesur yn sgil cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol i symud etholiad nesaf y Cynulliad i 2016. Mae'r Ddeddf yn pennu y bydd dyddiad etholiad trefnedig nesaf y Cynulliad ar 5 Mai 2016.

Mae'r Comisiwn annibynnol ar Fesur Hawliau yn edrych ar gyfraith hawliau dynol yn y DU ac yn cynghori ar ddiwygio Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg. Mae'r Comisiwn yn ymchwilio i amrediad o farnau gwahanol yn ei adroddiad ac mae'n ystyried yr holl DdU. Mae ei gylch gorchwyl yn galw arno'n benodol i ymgynghori â'r gweinyddiaethau a'r chyrff deddfwriaethol datganoledig. Mae Panel Cynghori'n cynghori'r Comisiwn ar faterion datganoli, ac yn cynnwys dau enwebai'r Prif Weinidog.

Ymgynghorwyd yn agos â ni hefyd yn ystod cyfnod sefydlu'r Comisiwn annibynnol i ystyried canlyniadau datganoli i Dŷ'r Cyffredin ('Comisiwn McKay').

***Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru***

Roedd Cytundeb y Glymblaid yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman ar gyfer Cynulliad Cymru, yn dibynnu ar ganlyniad y

refferendwm ar ragor o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Swyddfa Cymru wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol aelodaeth a chylch gorchwyl y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru ar 11 Hydref. Mae'r Comisiwn yn adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru.

Mae Paul Silk yn arwain tîm cryf yn y Comisiwn, sy'n cynnwys dau aelod annibynnol a phedwar enwebai pleidiau gwleidyddol, pob un wedi'i enwebu gan un o'r bedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad. Bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithio'n agos â'r Prif Weinidog ac arweinwyr yr holl bleidiau yn y Cynulliad i sefydlu'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gwneud ei waith mewn dwy ran. Yn gyntaf mae'n edrych ar atebolrwydd ariannol y Cynulliad Cenedlaethol, yn adolygu'r achos o blaid datganoli pwerau ariannol ac yn argymell pecyn o bwerau a fyddai'n gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad, sy'n gyson ag amcanion cyllidol y Deyrnas Unedig. Mae'n bwriadu cyflwyno'i adroddiad yn ddiweddarach eleni.

Yna, bydd y Comisiwn yn troi ar Ran 2 ei orchwyl, gan edrych ar bwerau'r Cynulliad ac argymell newidiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol presennol a fyddai'n galluogi'r setliad datganoli i weithio'n fwy effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar Ran 2 yn 2014.

Arweiniodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol drafodaeth, yn amser y Llywodraeth, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Tachwedd ar sefydlu'r Comisiwn a'i waith.

### *Ffiniau etholiadol y Cynulliad*

Mae'r Llywodraeth yn lleihau maint Tŷ'r Cyffredin, ac yn creu llai o etholaethau o faint mwy cyfartal fel bod gan bleidleisiau pobl yr un grym, ble bynnag y maent yn byw.

Bydd Tŷ'r Cyffredin llai ag etholaethau o faint mwy cyfartal yn golygu gostyngiad yn y nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru o 40 i 30. Ar hyn o bryd mae gan yr etholaethau hyn yr un ffiniau â'r rhai hynny a ddefnyddir i ethol Aelodau Cynulliad. Mae newid y ffiniau Seneddol yn golygu bod angen ystyried a ddylid addasu ffiniau etholaethau'r Cynulliad yn y dyfodol, ac felly mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol.

### *Cynghori ar y rhyngwyneb rhwng polisi a deddfwriaeth ddatganoledig ac annatganoledig*

Mae'r Adran wedi parhau i hyrwyddo buddiannau Cymru wrth ddatblygu deddfwriaeth y Llywodraeth, yn cydgysylltu a hwyluso ymgysylltiad â thimau Mesurau ac yn cynnig cyngor ar y ffordd y gallai deddfwriaeth arfaethedig effeithio ar Gymru. Fel gwarcheidwaid y setliad datganoli, mae'r Adran wedi cynghori ar y ffordd y dylai setliad datganoli Cymru gael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth arfaethedig, a ble ddylid ceisio cytundeb deddfwriaethol y Cynulliad mewn cysylltiad â darpariaethau mewn Mesurau Seneddol. Mae

Llywodraeth y Glymblaid wedi cyflwyno 35 Mesur i'r Senedd hyd yn hyn fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf, ac roedd 27 ohonynt wedi cael Cydsyniad Brenhinol erbyn 31 Mwarth 2012.

Fe wnaeth yr Adran fonitro busnes yn y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau ei bod yn ymwybodol o fuddiannau Cymru yn y sector datganoledig ac ar lefel y DU. Mae Swyddfa Cymru'n chwarae rôl bwysig wrth fonitro Mesurau'r Cynulliad wrth iddynt fynd trwy'r Cynulliad, ac wrth ystyried a oes unrhyw reswm i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei phwerau ymyrryd. Mae'r Adran yn ymddiddori'n fawr ym mentrau polisi Llywodraeth Cymru a chynnydd ei rhaglen ddeddfwriaethol. Bydd gweinidogion y ddwy Lywodraeth yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

***Nodiadau Cyfarwyddyd Datganoli***

Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Datganoli (DGNs) yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd i Adrannau Whitehall ynghylch delio â materion datganoledig a chysylltiadau rhwng y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Cyhoeddir pob DGN ar wefan Swyddfa'r Cabinet; hefyd cyhoeddir y rhai hynny sy'n ymwneud â Chymru ar wefan Swyddfa Cymru.

Mae'r Adran wedi adolygu rhai Nodiadau Cyfarwyddyd Datganoli mewn cysylltiad â Chymru yng ngoleuni'r ffaith fod y Cynulliad wedi cael pwerau deddfwriaethol yn yr ugain maes datganoledig ym Mai 2011. Mae'r DGN 9 adolygedig yn cynnig cyngor i Adrannau'r Llywodraeth ar ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n effeithio ar Gymru, ac mae'r DGN 17 newydd yn egluro'r weithdrefn ar gyfer addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

***Annog a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a sefydliadau datganoledig***

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio gydag Adrannau ar draws y Llywodraeth i godi ymwybyddiaeth o'r setliad datganoli i Gymru, yn egluro sut oedd yn gweithio'n ymarferol a'r hyn y mae angen i Adrannau'i wneud i sicrhau bod materion datganoli'n rhan o'u gwaith bob dydd.

Mae'r Adran hefyd wedi ymgysylltu â thimau Mesurau Whitehall yn ystod y camau cyntaf i archwilio i gynigion a chynnig cyfarwyddyd ar y setliad datganoli, i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn wrth i gynigion ar gyfer deddfwriaeth gael eu datblygu. Mae swyddogion Swyddfa Cymru hefyd wedi cyfranogi mewn sesiynau hyfforddi mwy ffurfiol, er enghraifft, yn seminar yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ar gyfer timau Mesurau ar ddatganoli yn Rhagfyr 2011.

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cyfranogi'n weithgar yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ble trafodir materion o ddiddordeb i'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Er enghraifft, mynychodd yr Ysgrifennydd Gwladol sesiwn Cyfarfod Llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar 8 Mehefin 2011, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, sef y cyfarfod cyntaf ers ffurfio Llywodraeth newydd Cymru wedi etholiad y Cynulliad ar 5 Mai. Trafodwyd blaenoriaethau'r gweinyddiaethau datganoledig yn y

cyfarfod, a'r pwysigrwydd o gydweithio'n agos ar faterion sydd o ddiddordeb i bawb, i sicrhau adferiad a chynnal twf economaidd.

***Gweinidogion Datganoli***

Datblygodd Swyddfa Cymru'r cysyniad o Weinidog Datganoli ym mhob Adran y Llywodraeth. Sefydlwyd y rhwydwaith o Weinidogion Datganoli ac fe wnaeth gwrdd ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel y gwnaeth y grŵp o uwch swyddogion sy'n cefnogi'r rhwydwaith. Darparodd y cyfarfodydd gyfle gwerthfawr i Weinidogion fesur a phwyso datblygiadau, trafod materion allweddol, a chyfnewid syniadau ac enghreifftiau o arfer gorau. Yn ychwanegol i gyfarfodydd ffurfiol y Rhwydwaith, cynhaliodd Gweinidogion Swyddfa Cymru gyfarfodydd dwyochrog â Gweinidogion Datganoli unigol.

## *Amcan 2: Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn y Llywodraeth, a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau'r Llywodraeth yng Nghymru*

Yn ystod 2011/12, mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi ateb chwe Chwestiwn Llafar ac wedi cynnal dau sesiwn yr Uwch-Bwyllgor Cymreig - y cyntaf yn Wrecsam, Gogledd Cymru ym mis Hydref 2011 ar y Rhaglen Waith; a'r ail yn San Steffan yn Chwefror 2012 ar bolisi amaethyddiaeth Llywodraeth EM fel mae'n effeithio ar Gymru. Cynigodd y ddau bwyllgor gyfle i graffu ar effaith polisi'r Llywodraeth ar Gymru.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i sicrhau bod buddiannau Cymru wedi'u cynrychioli'n llawn wrth i bolisi mewn meysydd annatganoledig gael ei ddatblygu a'i weithredu. Roedd ffocws arbennig ar dwf economaidd, â'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r pwerau a oedd ar gael iddi i roi hwb i dwf economaidd yng Nghymru. Un o'r pethau nodedig iawn oedd y cyhoeddiad yng Ngorffennaf 2011 y byddai Cymru'n cael bron £57 miliwn i wella darpariaeth band llydan a dod â band llydan cyflym iawn i 90% o gartrefi a busnesau, gan ddarparu oddeutu 10% o ddyraniad y DU i Gymru.

Yn ychwanegol, yn Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai 14 dinas ar draws y DU yn cael y cyfle i ddod yn ddinasoedd â chysylltiad tra chyflym, â chyflymderau mynediad band llydan o rhwng 80 a 100Mbps. Dewiswyd Caerdydd oherwydd ei statws fel prifddinas, a gallai dinasoedd eraill â dros 150,000 o anheddau wneud cais i rannu'r £100 miliwn a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref trwy broses gystadlu a gynhelir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae band llydan cyflym a dibynadwy'n rhan sylfaenol o'n gweledigaeth ar gyfer twf economaidd, ac felly mae Swyddfa Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod gan Gymru rwydwaith band llydan sy'n addas ar gyfer yr oes ddigidol.

Trwy gydol y flwyddyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi parhau â'i hymrwyniad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu Ardaloedd Menter yng Nghymru fel y gall busnesau Cymru fwynhau'r un manteision cystadleuol â busnesau mewn lleoedd fel Bryste, Glannau Merswy, Henffordd a Warrington. Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer saith Ardal ar

draws Cymru. Roedd Cyllideb 2012 yn cynnwys cyhoeddiad y byddai Lwfans Cyfalaf Uwch (ECA) ar gael i'r Ardal Fenter yng Nglannau Dyfrdwy, â'r potensial o greu hyd at 5000 o swyddi newydd. Bydd unrhyw gyhoeddiadau pellach ynghylch ECA yn dibynnu'n gyntaf ar achos busnes cadarn yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y cynnig i drydanu rheilffordd Prif Linell y Great Western o Lundain i Gaerdydd yn newyddion ardderchog i Gymru. Cydnabu'r cyhoeddiad fod seilwaith rheilffordd gwell ac amseroedd teithio is yn elfennau allweddol i gyflawni adferiad economaidd llwyddiannus yng Nghymru. Gweithiodd Swyddfa Cymru'n galed iawn trwy gydol 2011 i ddadlau'r achos o blaid trydanu'r rhan hon o'r rhwydwaith rheilffyrdd, a pharhaodd i wneud yr un peth o blaid trydanu Llinellau'r Cymoedd i'r gogledd o Gaerdydd. Fe wnaethom hefyd barhau i ddadlau o blaid trydanu pellach, gan gynnwys i Abertawe.

Fe wnaeth swyddogion a chynghorwyr cyfreithiol Swyddfa Cymru barhau i weithio'n agos â thimau Mesurau Adrannol Llywodraeth EM a Swyddfa'r Cabinet ar ddeddfwriaeth DU oedd yn effeithio ar Gymru. Buom yn ymwneud yn arbennig â'r Mesur Diwygio Lles, a fydd yn cael effaith arwyddocaol yng Nghymru, a'r Mesur Cyrff Cyhoeddus, sef y prif ddull deddfwriaethol o symud adolygiad y Llywodraeth o gyrff cyhoeddus yn ei flaen, y cyhoeddwyd ei ganlyniadau ym mis Hydref 2010. Roedd darnau pwysig eraill o ddeddfwriaeth a oedd angen cyfraniad arwyddocaol gan Swyddfa Cymru'n cynnwys y Mesur Addysg, y Mesur Ynni, y Mesur Cyllid Llywodraeth Leol, y Mesur Lleoliaeth a Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Fe wnaethom hefyd barhau i roi cyngor i Adrannau eraill y Llywodraeth ar bob agwedd o'r setliad datganoli a darparu hyfforddiant iddynt ar y newidiadau i sefyllfa ddatganoli yn sgil y refferendwm a'r ffaith bod atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru yn dod i rym.

Fe geisiom sefydlu a datblygu perthnasau gweithio effeithiol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i hwyluso ymgysylltu, ac i annog rhannu gwybodaeth yn well, wrth i ddeddfwriaeth Gymreig gael ei datblygu. Sefydlwyd cydweithrediad agos ar nifer o gynigion cyn-ddeddfwriaethol, yn arbennig y Bil arfaethedig ar Drawsblannu Organau a Meinweoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf ac sy'n anelu at newid y system bresennol o roi organau gan gyflwyno system optio allan yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ystyried yr ymgynghoriadau a gyhoeddwyd, a'r ddau Fesur a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

## *Amcan 3: Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru*

Mae Swyddfa Cymru a'i thîm Gweinidogol wedi chwarae rhan bwysig wrth gynrychioli Cymru, ac wrth hyrwyddo ei hasedau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol niferus.

Rhan allweddol o'r amcan cyffredinol hwn oedd sicrhau y cydnabuwyd y rhai hynny sydd wedi cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru yn yr enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau a roddir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Gan weithio mewn partneriaeth, fe wnaeth Swyddfa Cymru a

Llywodraeth Cymru gydgysylltu a chyflwyno enwebiadau am Anrhydeddau i Swyddfa'r Cabinet am wasanaeth a chyflawniad rhagorol yng Nghymru.

***Buddiannau economaidd***

Fe wnaeth y tîm Gweinidogol fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo Cymru fel lle i wneud busnes, a chwrdd ac ymweld â busnesau a sefydliadau busnes allweddol ledled Cymru i wrando ar eu barn a'u profiadau ac i drafod gwaith y Llywodraeth i gyflawni twf cadarn a chynaliadwy, mynd i'r afael â'r diffyg economaidd, a chreu'r amodau a wnaiff alluogi i'r sector preifat yng Nghymru dyfu.

Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol gwrdd yn rheolaidd â'i Grŵp Cynghori Busnes, a ddaeth â chynrychiolwyr sefydliadau busnes a sectorau allweddol ynghyd, megis gweithgynhyrchu, manwerthu, cludiant, ynni a gwasanaethau ariannol yn ogystal ag academwyr o Gymru, gan roi cyfle iddynt ddarparu tystiolaeth uniongyrchol o faterion sy'n effeithio ar y gymuned fusnes yng Nghymru. Roedd digwyddiadau yn 2011-12 yn cynnwys trafodaeth ar y Rhaglen Waith (Gorffennaf 2011) â'r Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS, ymweliad â Tata Steel yn Port Talbot (Hydref 2011), a cyhflwyniad ar y gefnogaeth a chyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwil ac arloesedd yn y DU (Ionawr 2012) gyda'r Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion, Sgiliau a Thechnoleg, Y Gwir Anrhydeddus David Willetts AS. Fe wnaeth trafodaethau'r grŵp gyfrannu at Grŵp Cynghori Busnes y Prif Weinidog gan sicrhau y byddai barn busnesau Cymru yn cael gwrandawiad wrth galon y Llywodraeth. Gwnaethpwyd adolygiad o'r Grŵp Cynghori Busnes yn ystod yr haf a chafodd aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp eu cadarnhau ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Hefyd roedd gan fewnfuddsoddi ffocws cryf yn ystod 2011-12, â'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn gwneud ei arolwg yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Ysgrifennydd Busnes a'r Arglwydd Green dystiolaeth i'r Pwyllgor yn Rhagfyr 2011, wrth amlinellu eu cynlluniau ar fewnfuddsoddi yng Nghymru gan amlygu nifer o gwmnïau rhyngwladol, yn cynnwys Airbus, Toyota, Sharp a PriceWaterhouseCoopers, sydd wedi dewis ymsefydlu yng Nghymru.

Mae gweinidogion wedi siarad mewn nifer o gyfarfodydd pwysig yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Clwb Busnes Abertawe ym Mehefin 2011, trafodaethau o amgylch bwrdd yn Dods Manufacturing a lansiad Cynghrair Ryngwladol DFA yng Ngorffennaf 2011, Cinio Gala Blynyddol Fast Growth 50 a Chynhadledd seilwaith Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru ym Medi 2011, Gwobrau Gwnaed yng Nghymru ym mis Hydref 2011 a Gwledd Awr Ginio Cyd-gomisiwn Economi a Masnach y DU a Tsieina yn Rhagfyr 2011. Mae amrywiaeth eang o gyfarfodydd busnes ac ymweliadau â chwmnïau wedi'u cynnal hefyd.

Parhaodd datblygu cysylltiadau busnes rhyngwladol yn flaenoriaeth bwysig. Fe wnaeth gweinidogion hyrwyddo'r daith fasnach gyntaf i Bangladesh ym Medi 2011 i hybu cyfleoedd i gwmnïau Cymreig ac Cymry Bangladeshaidd sy'n entrepreneuriaid i adeiladu ar y cysylltiadau masnachu a sefydlwyd eisoes rhwng y ddwy wlad, a chyfranogi yn y trafodaethau masnach cyntaf rhwng y DU a Tsieina yng Nghaerdydd yn Rhagfyr 2011, pan groesawodd yr Ysgrifennydd

Gwladol ymagwedd gydweithredol y ddwy Lywodraeth yn Llundain a Chaerdydd i helpu Cymru i wneud busnes ar y llwyfan rhyngwladol.

***Buddiannau Cymdeithasol***

Yn ystod mis Awst 2011, ymelodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol â nifer o gyrchfannau pwysig i ymwelwyr ar draws Gogledd a Gorllewin Cymru, gan gynnwys atyniadau fel Fferm Ffoli, Heatherton a Thrac Môn ynghyd ag ymweliadau â pharciau gwyliau poblogaidd yn yr ardal. Bu'r Gweinidog yn trafod o amgylch bwrdd â busnesau twristiaeth allweddol i glywed ganddynt sut oedd yr hinsawdd economaidd yn effeithio arnynt a beth arall y gallai'r Llywodraeth ei wneud.

***Buddiannau Diwylliannol***

Mae Cymru'n ymfalchïo yn ei hanes diwylliannol cyfoethog a cheisiodd Swyddfa Cymru fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo Cymru fel canolfan ragoriaeth ddiwylliannol.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos ag Adrannau eraill y Llywodraeth ar S4C a'i bartneriaeth â'r BBC, ac mae wedi ymrywmo i wasanaeth teledu iaith Gymraeg cryf ac annibynnol. Fe wnaeth y tîm Gweinidogol chwarae rhan weithgar wrth sicrhau annibyniaeth S4C fel darlledwr, gan groesawu'r cyhoeddiad ym mis Hydref 2011 a oedd yn sicrhau y bydd S4C fel endid unigryw yn cadw annibyniaeth olygyddol, â chyllid wedi'i gadarnhau.

Yng Ngorffennaf 2011, anerchodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr ysgolion buddugol yn Seremoni Wobrwyo Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yng Nghastell Caerffili. Roedd y Fenter yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 a dros y blynyddoedd mae wedi helpu miloedd o bobl ifanc i ymddiddori yn eu treftadaeth a'r cyfraniad a wnaed iddi gan eu teuluoedd a chymunedau. Ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol â Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanfair ym Muallt yng Ngorffennaf 2011, a mynychodd yr Ysgrifennydd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen fel Llywydd y Dydd, a bu'n annerch yr Eisteddfod ac yn cwrdd â rhai o'r gwirfoddolwyr niferus sy'n cyfrannu at lwyddiant y digwyddiad. Roedd yr Eisteddfod Ryngwladol yn dathlu ei phen-blwydd yn 65, a chaiff ei hystyried yn gyffredinol yn un o wyliau diwylliannol mewyaf ysbrydoledig y byd, yn denu mwy na 4,000 o gystadleuwyr o bob rhan o'r byd i Langollen yn flynyddol. Aeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol i'r Eisteddofd Genedlaethol yn Wrecsam.

Ymunodd yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Prif Weinidog mewn Derbyniad pwysig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn 10 Stryd Downing am y tro cyntaf, ar gyfer dros 100 o bobl o bob cefndir a oedd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i lwyddiannau Cymreig.

## *Amcan 4: Cynnal ein busnes â chwrteisi, effeithlonrwydd a phriodoldeb*

### *Ariannu a Chyllid*

O'r setliad o £12.917 biliwn i Gymru, roedd dyraniad Swyddfa Cymru ar gyfer 2011-12 oddeutu £6.5 miliwn, a wariwyd yn bennaf ar staff a swyddfeydd Swyddfa Cymru, a chyfrifoldebau eraill Swyddfa Cymru fel ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Gweddill y setliad (£12.911 biliwn) yw'r grant i Lywodraeth Cymru.

Mae Swyddfa Cymru'n trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Lywodraeth Cymru ond mae'r dull o wario'r arian hwnnw a'r hyn y caiff ei wario arno yn fater i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei defnydd o adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am archwiliad allanol o Lywodraeth Cymru.

### *Effeithlonrwydd*

Bydd y cyfnod Adolygiad o Wariant cyfredol (hyd at 2014-15) yn gweld lleihad o draean mewn termau real yng nghyllideb Swyddfa Cymru. Rydym wedi cymryd nifer o gamau yn 2011-12 i helpu sicrhau ein bod yn cyflawni'r her hon.

Sefydlwyd Pwyllgor Newid ac Effeithlonrwydd fel un o is-bwyllgorau Bwrdd Rheoli'r Adran, i gydgysylltu a goruchwylio'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd ers tro i gryfhau ein gallu ac i wella'n ffyrdd o weithio ymhellach i sicrhau bod yr Adran yn cadw o fewn ei chyllideb, gan barhau i gyflawni'n hancanion busnes allweddol. Mae gwaith wedi cychwyn ar Gynllun Effeithlonrwydd â therfyn amser i gyflwyno'r camau gweithredu a nodir ac a gytunir.

Fel Adran fechan, fe wnaethom barhau i fabwysiadu dull cost-effiethiol a phragmatig o ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol. Fe wnaethom gymaint o ddefnydd â phosib o drefniadau fframwaith a chontractau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) mewn meysydd fel diogelwch, rheoli cyfleusterau a gwasanaethau TG, sy'n cynhyrchu manteision arwyddocaol yn nhermau economïau graddfa ac arbenigedd. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r cytundebau lefel gwasanaeth sydd yn eu lle gyda'r MoJ am y gwasanaethau hyn. Fe wnaethom hefyd barhau i weithio'n agos â Swyddfa'r Alban a Swyddfa Gogledd Iwerddon i rannu darpariaeth gwasanaethau cefn swyddfa ble bynnag mae'n bosibl, a symleiddio ein Gwasanaethau Seneddol unigol yn ystod 2011-12 yn un cyd-dîm Gwasanaeth Seneddol, sy'n gwasanaethu pob un o'r Swyddfeydd Tiriogaethol.

### *Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a gonestrwydd yn ganolog i werthoedd craidd Swyddfa Cymru. Rydym wedi parhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, gan gynnwys:

- gwariant dros £500, yn Cynnwys Cardiau Caffael y Llywodraeth;
- ffigyrau misol y Gweithlu, yn cynnwys Costau Cyflog;
- Strwythur a chyflogau yr Uwch Wasanaeth Sifil;
- Llety gweinidogion a theithiau awyr a thrên y gweinidogion;

- anrhegion dros £140 a roddir i a gan Weinidogion (a'r Cynghorydd Arbennig);
- Teithiau tramor gan Weinidogion;
- lletygarwch a gafodd Gweinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr; a
- chyfarfodydd â sefydliadau allanol, yn cynnwys y cyfryngau.

Yn ystod 2011-12 fe wnaethom ddelio â dros 170 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) fel y nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau FOI a gafwyd, yn cynnwys: | 171 |
| Ymatebion wedi cael ateb o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn estyniad a ganiatawyd | 158 (92%) |
| Cais am Adolygiad Mewnol o'n hymateb | 9 |
| Ymateb wedi'i gyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth | 1 (dyfarnodd y Comisiynydd o blaid yr Adran) |

Crynhoir ein perfformiad seneddol yn ystod 2011-12 isod:

| Targed | % |
|---|---|
| % o gwestiynau â dyddiad trafod penodol yn brydlon | 100% |
| % o gwestiynau ysgrifenedig cyffredin yn brydlon | 88% |

Ein perfformiad wrth ddelio â gohebiaeth yn ystod 2011-12 oedd:

| Targed | % |
|---|---|
| Gohebiaeth wedi'i thrafod o fewn 15 diwrnod | 93% |

### *Taliadau i Gyflenwyr*

Yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12, polisi'r Adran oedd talu cyflenwyr yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog ym Mai 2010 y dylai Adrannau'r Llywodraeth dalu cyflenwyr o fewn 5 diwrnod o gael anfoneb ddilys wedi'i hanfod i'r cyfeiriad bilio cywir.

Ym mlwyddyn ariannol 2011-12, talwyd 92% o anfonebau o fewn y telerau hyn, yn erbyn target traws-lywodraeth o 80%. Yn 2010-11, talwyd 92% o'r anfonebau o fewn 5 diwrnod o'u cael.

### *Adeiladau a gwaith Cyfalaf*

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, a oedd yn wreiddiol yn dŷ tref Sioraidd, ac mae'n adeilad rhestredig Gradd II*. Cawn gyngor a chymorth

proffesiynol gan dîm ystadau MoJ a gan ein hasiantiaid rheoli ein hunain, i sicrhau ein bod yn diwallu'r rheoliadau adeiladu statudol a'n bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen dreigl o waith cynnal a chadw yn ei lle ar gyfer Tŷ Gwydyr, sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, a byddwn bob amser yn ceisio darparu amgylchedd gwaith diogel i'n staff, Gweinidogion ac ymwelwyr.


Yn ychwanegol, mae'r Adran hefyd yn rhentu swyddfeydd (ble lleolir oddeutu traean ei staff) yng Nghymru, a leolir ym Mae Caerdydd ger Cynulliad Cenedlaethol Cymru a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'r ddwy swyddfa'n diwallu gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Byddwn yn adleoli ein canolfan yng Nghaerdydd yn haf 2012 er mwyn i'r cwmni canolfan alwadau FirstSource Solutions gael meddiant unigol o Discovery House. Yn unol â rhaglen y Llywodraeth o leihau costau, byddwn yn talu 11% yn llai o rent am ein hadeilad newydd.

### *Materion Staffio*

Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio ein niferoedd bychan o staff, yn meddu ar y sgiliau priodol, yn y ffordd orau er mwyn cyflawni ein hamcanion busnes. Mae ein polisi staffio'n cynnwys nifer o elfennau: dysgu a datblygu parhaol ar gyfer staff presennol; llenwi swyddi gwag sylweddol o fewn y gwasanaeth sifil ehangach neu drwy fenthyciadau/secondiadau o sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru; a, ble mae'n bosibl, defnyddio'r arbenigedd sydd gennym eisoes o fewn adrannau mwy yn Whitehall.


Roedd gan Swyddfa Cymru gyfanswm o 64 o staff yn y cyfnod 2011-12. Roedd ein trosiant tua 28% dros y flwyddyn, ac roedd lefelau staffio tua 84% ar gyfartaledd trwy gydol y flwyddyn ariannol, fel y gwelir yn y siart isod.



Cyfanswm y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2012 oedd 61 (60.4 clla), a oedd yn cynnwys un aelod o staff asiantaeth (dros dro), tri aelod o staff ar gontractau cyfnod penodol ac 17 aelod staff ar fenthyg o Lywodraeth Cymru a thri ar fenthyg o Adrannau eraill y Llywodraeth. Lleolwyd 38% o'r staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 62%yn Nhŷ Gwydyr, Llundain. Yn ychwanegol, roedd tri aelod staff Swyddfa Cymru ar fenthyciad allanol i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Gwelir dadansoddiad o staff yn ôl graddau'r gwasanaeth sifil yn y siart isod:

**Dadansoddiad graddau**




### *Recriwtio*

Fe wnaeth Swyddfa Cymru 17 ymarfer recriwtio mewnol (hynny yw, mewnol i'r Gwasanaeth Sifil) yn ystod 2011-12 a recriwtiwyd dau brentis trwy'r Sefydliad Prentisiaeth Cenedlaethol am gyfnod penodol. Ni wnaed unrhyw ymarferion recriwtio allanol sylweddol.

### *Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, y prif resymau i staff adael Swyddfa Cymru oedd: trosglwyddiad ochrol o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ); ymddiswyddo i weithio i sefydliad y tu allan i'r gwasanaeth sifil; a phump o staff a adawodd yn wirfoddol ar delerau gadael yn gynnar a gynigiwyd gan eu rhiant-adran (naill ai Llywodraeth Cymru neu'r MoJ). Daeth cyfnod benthyciad pump unigolyn arall i ben a dychwelon i'w rhiant-adran.

### *Yr Uwch Wasanaeth Sifil*

Ar 31 Mawrth 2012 mae 4 swydd uwch was sifil sylweddol o fewn Swyddfa Cymru.

### *Cyfleoedd cyfartal*

| Staff mewn swyddi Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2012 | Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| Cyfran o fenywod | 25% | 25% |
| Cyfran o fenywod ar fand Tâl 2 neu'n uwch | 100% | 100% |
| Cyfran o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 0% | 0% |
| Cyfran o staff anabl | 0% | 0% |

| Staff Islaw Lefel Uwch Wasanaeth Sifiol | % Mawrth 2012 | % March 2011 |
|---|---|---|
| Menywod | 56% | 63% |
| BME | 7% | 11% |
| Anabl | 3% | 5% |

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru'n ymrwymedig i reoli perfformiad yn ffurfiol ac mae ganddi record 100% o osod amcanion i staff ac o leiaf 2 adolygiad blynyddol i staff sydd wedi bod yn eu swydd am y cyfnod deuddeg mis llawn.

### *Arolwg Ymgysylltiad Staff*

Mae Swyddfa Cymru'n cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol ar draws y gwasanaeth sifil. Yn 2011, ein mynegrif ymgysylltiad staff cyffredinol oedd 53%.

Roedd ein sgorau cadarnhaol uchaf yn ymwneud â staff:

- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o amcanion y Swyddfa a sut mae eu gwaith yn cyfrannu atynt;
- yn meddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol;
- yn ymddiddori yn eu gwaith; ac
- yn gwybod y gellir dibynnu ar y bobl yn eu timau pan aiff eu gwaith yn anodd.

Roedd y meysydd ble gwnaethom sgorio'n uwch na'r Unedau Perfformiad Uchaf neu chwartel uchaf Gwasanaeth Sifil y DU (10–15% yn uwch) yn perthyn ar y cyfan i adrannau Arweinyddiaeth a Rheoli Newid yr holiadur.

### *Dysgu a Datblygu*

Cafodd strategaeth Dysgu a Datblygu Swyddfa Cymru ei hadolygu a'i diweddaru yn ystod 2011, â phwyslais cadarn ar y berthynas rhwng y Cynllun Busnes a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i'w gyflawni'n llwyddiannus. Mae'r strategaeth

yn canolbwyntio ar wella dadansoddi sgiliau, cyflwyno rhagor o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu mewnol, a gwerthuso hyfforddiant a gafwyd yn well.

### *Gwirfoddoli*

I gefnogi'r fenter wirfoddoli ledled y Gwasanaeth Sifil yn 2011, mae Swyddfa Cymru'n chwarae ei rhan trwy ymgymryd â rhaglen gyfredol o weithgareddau gwirfoddol gyda, ac ar ran, Ymddiriedolaeth y Tywysog – Cymru. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae dros 20 aelod o staff, ar bob lefel yn y sefydliad, eisoes wedi gwirfoddoli i dreulio o leiaf un diwrnod yn gweithio i Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ystod haf 2012. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi treulio rhywfaint o amser gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog ac wedi addo treulio rhagor o amser gyda'r sefydliad yn y misoedd sy'n dod. Mae'r Is-ysgrifennydd Gwladol wedi treulio rhywfaint o amser gyda chydweithfa fwyd yng Ngogledd Cymru; a gyda Gweithdy Cerbydau Modur Hyfforddiant Gogledd Cymru.

### *Cyflogi pobl anabl*

Mae Swyddfa Cymru yn dilyn polisi anabledd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob aelod staff sy'n anabl. Rydym yn annog diwylliant sy'n caniatáu i staff anabl gyfranogi'n llawn mewn bywyd gwaith, a darperir canllawiau ar gefnogi staff anabl trwy'r Llawlyfr Gallu Adrannol. Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig (GIS) ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae cefnogaeth a chyngor datblygu gyrfa wedi'i dargedu ar gael ar gyfer staff anabl. Roed gan yr Adran ymgyrch dreigl “delweddau cadarnhaol o anabledd” i amlygu'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd gan staff anabl yn Swyddfa Cymru, ac i hybu dealltwriaeth o anableddau.

### *Data absenoldeb salwch*

Roedd nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd mewn blwyddyn galendr oherwydd salwch staff ar draws Swyddfa Cymru yn 2011-12 yn 7.1 diwrnod (4.9 diwrnod yn 2011-12).

Mae lleihau absenoldeb oherwydd salwch yn cydfynd â'n hymrwymiadau Llywodraethu Gwell ac mae'n dal yn un o flaenoriaethau strategaeth y gweithlu o fewn yr Adran.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru'n trafod llawer o ddata sensitif neu bersonol, ond er hynny mae'n ymrwymedig i sicrhau bod y wybodaeth sydd ganddi yn cael ei thrafod a'i diogelu'n gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Nodir asedau a risgau gwybodaeth ac mae rheolaethau yn eu lle i reoli eu defnydd, a adolygir yn rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi a ddarperir trwy'r MoJ i hyfforddi'r holl staff ynghylch diogelu gwybodaeth a materion trafod data.

### *Yr Iaith Gymraeg*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hunan, ac er nad yw'r Adran yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd, mae'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg fel yn Saesneg. Rydym yn parhau, er enghraifft, i gyflogi derbynyddion/teleffonyddion sy'n siarad Cymraeg yn ein swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd, sy'n gweithredu fel y cyswllt cyntaf i bob galwr.

Rydym hefyd wedi parhau i annog ein staff i ddysgu Cymraeg ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant iaith i alluogi'n staff i weithio'n hyderus yn Gymraeg. Rydym wedi parhau i dalu costau hyfforddiant yn ogystal â chynnig amser i ffwrdd â thâl a seibiant astudio i aelodau staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant o'r fath. Ar hyn o bryd cyflwynir hyfforddiant ar lefel sylfaenol yng Nghaerdydd a Llundain, ar gyfer tua 23 aelod staff.

Gwneir arolwg o sgiliau staff Swyddfa Cymru yn flynyddol a bydd canlyniadau'r archwiliad hwn yn sylfaen i'n rhaglen cynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae 8% o'n staff yn cydnabod eu bod yn ddwyieithiog.

### *Datblygu Cynaliadwy*

Ble mae Swyddfa Cymru'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu sydd dan gontract iddi, cyflawnir ein cyfraniad i ymrwymiadau'r Llywodraeth ar effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd o fewn y fframweithiau ehangach hynny. Mae gan Swyddfa Cymru raglen gyfredol o waith i leihau ei heffaith amgylcheddol, yn cynnwys:

- cynyddu'r amrediad o eitemau y gellir eu casglu i'w hailgylchu yn ein dau adeilad;
- annog y defnydd o fideo-gynadledda yn lle teithio i gyfarfodydd; ac
- amnewid argraffyddion sydd wedi darfod â rhai sy'n argraffu ar y ddwy ochr i leihau'r defnydd o bapur.

Fe wnaeth y Bwrdd Rheoli fonitro perfformiad amgylcheddol ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2011-12.

### *Archwilio*

Caiff y datganiadau ariannol eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodir o dan statud ac sy'n adrodd ynghylch yr archwiliad i'r Senedd. Datgelir tâl yr Archwilydd yn Nodyn 7 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd, ni wnaed unrhyw daliadau i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio (2010-11: £Dim).

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu a Swyddfa Cymru, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau fod archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# 4 Edrych ymlaen at 2012-13

Bydd gwaith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (‘Comisiwn Silk’) yn parhau i fod yn ffocws i Swyddfa Cymru y flwyddyn nesaf ac wedi hynny, o ran cefnogi'r Comisiwn ac ystyried unrhyw argymhellion sy'n codi. Byddwn yn ymwneud yn agos ag amrediad o faterion cyfansoddiadol ac ariannol eraill hefyd, fel trafodaethau rhwng y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio cyllid, yr angen i sefydlu mecanwaith statudol i adolygu ffiniau etholiadol y Cynulliad ac asesu goblygiadau datblygiadau cyfansoddiadol yn Yr Alban i Gymru.

Bydd ein rôl wrth galon y Llywodraeth – yn gwthio buddiannau Cymru – yn bwysicach nag erioed wrth i'r Llywodraeth geisio tyfu'r economi. Bydd hwn yn aros yn faes blaenoriaethol inni yn y flwyddyn sy'n dod, a byddwn yn sicrhau y cynrychiolir Cymru'n briodol wrth i drafodaethau ddigwydd ynghylch mewnfuddsoddi, seilwaith, twf a lleihau beichiau ar fusnes. Byddwn yn parhau yn ffynhonnell o gyngor a chyfarwyddyd arbenigol i Adrannau eraill wrth i bolisïau gael eu creu ac wrth i deddfwriaeth gael ei pharatoi. Yn yr un modd byddwn yn cysylltu â Llywodraeth Cymru fel bo'r angen i sicrhau bod y ddeddfwriaeth a gyflwynir ganddi'n gyson â'r setliad datganoli ac o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd gwella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o setliad datganoli Cymru o fewn Whitehall ac ar lefel ehangach yn flaenoriaeth arall i Swyddfa Cymru. Bydd yn hanfodol hefyd i Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru gydweithio er lles Cymru, a byddwn yn canolbwyntio'n hymdrechion ar hwyluso'r bartneriaeth honno er gwaethaf y cefndir gwleidyddol.

Bydd yn hanfodol hefyd i Swyddfa Cymru barhau i chwarae ei rhan wrth gynyddu'n effeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd i'r eithaf i gyfrannu at agenda diwygio economaidd y Llywodraeth. Bydd y flwyddyn ariannol nesaf – 2012–13 – hyd yn oed yn fwy heriol o ran ymdopi o fewn ein cyllideb lai ond rydym wedi gosod sylfeini cadarn eleni.

# 5 Sylwebaeth Rheoli

Yn 2011-12 gwariodd Swyddfa Cymru £12.797 biliwn o fewn Amcangyfrifon Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), yn bennaf fel grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Perfformiad Ariannol

Bydd y Senedd yn pleidleisio ar gyllid i'r adrannau ddwywaith yn ystod y flwyddyn trwy Brif Amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ac Amcangyfrif Atodol Sengl yn Ionawr.

***Symudiadau darpariaeth Amcangyfrif yn ystod 2011-12:*** Ar ddechrau'r flwyddyn, pleidleiswyd £12.917 biliwn i Swyddfa Cymru yn ei Phrif Amcaangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Sengl terfynol, roedd hwn wedi gostwng i £12.872 biliwn oherwydd y prif resymau dilynol:

- £114,000 o ostyngiad mewn DEL oherwydd adnau â mecanwaith Cyfnewid Cyllideb Trysorlys EM o 2% o'r RDEL heb ei neilltuo;
- £19,000 o gynnydd mewn AME oherwydd cynnydd mewn ymrwymiadau pensiwn o fewn Swyddfa Cymru.
- £45,076,000 o ostyngiad mewn DEL yn y grant i Lywodraeth Cymru.

## Eglurhad am amrywiaethau rhwng Amcangyfrif ac Alldro Adnoddau Net

Yn gyffredinol roedd tan-wariant o 0.58% / £74.733m ar amcangyfrif y ddarpariaeth o £12.872 biliwn. Mae nodyn 2 i'r Cyfrifon yn cynnig dadansoddiad o'r sefyllfa hon ar gyfer pob is-bennawd yn yr Amcangyfrif. Anlinellir y rhesymau dros amrywiaethau mawr sy'n fwy na £60k a 5%.

***Swyddfa Cymru***

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ tanwariant £000 | Canran yr amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,959 | 5,572 | 613 | 11.0 |

Gellir pennu'r tanwariant yn Swyddfa Cymru yn bennaf i'r galwadau posibl ar gronfeydd naill ai'n cael eu datrys neu'n llai na'r disgwyl, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd cynllunedig.

### *Comisiwn ar Ddatganoli*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ tanwariant £000 | Canran yr amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| B | Comisiwn ar Ddatganoli | 219 | 331 | 112 | 33.8 |

Gellir pennu'r tanwariant yn y Comisiwn ar Ddatganoli'n bennaf i'r oedi wrth sicrhau ei swyddfeydd ei hunan a chronfeydd wrth gefn nas defnyddiwyd.

### *Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ tanwariant £000 | Canran yr amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| D | Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 12,791,783 | 12,865,791 | 74,008 | 0.57 |

Mae'r tanwariant ar y Grant i Gronfa Gyfunol Cymru oherwydd gofynion ariannol llai o fewn Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

### *Cymodi gwariant ar adnoddau rhwng Amcangyfrif, Cyfrifon a Chyllidebau*

| | Amcangyfrif £000 | Cyfanswm 2011-12 £000 |
|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon) | 12,871,803 | 12,797,070 |
| | | |
| Llai incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | (27)* |
| | | |
| Cost Gweithredu Net (Cyfrifon) | 12,871,803 | 12,797,043 |
| | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd y tu allan i'r gyllideb | (12,865,791) | (12,791,783) |
| | | |
| **Alldro Cyllideb Adnoddau (Cyllideb)** | 6,012 | 5,287*[1] |
| *sy'n cynnwys* | | |
| Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) | 5,903 | 5,178*[1] |
| Gwariant Blynyddol a Reolir (AME) | 109 | 109*[1] |

*Mae'r £(27)k yn ymwneud ag incwm gweithredol y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif ac nid yw'n mynd trwy Nodyn 2. Gweler Nodyn 5.1.
[1] Mae'n Cytuno â Nodyn 2.

# 6 Tablau Ariannol Craidd Gwariant Chyoeddus

**TABL 1**

**Grant Bloc Cymru 2007-08 i 2014-15**

| | 2007-08 alldro £'000 | 2008-09 alldro £'000 | 2009-10 alldro £'000 | 2010-11 alldro £'000 | 2011-12 alldro £'000 | 2012-13 cynlluniau £'000 | 2013-14 cynlluniau £'000 | 2014-15 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Cymru**(1)(2) | | | | | | | | |
| **Adnodd Swyddfa Cymru**(3) | | | | | | | | |
| Costau Gweinyddol Swyddfa Cymru | 4,886 | 4,983 | 5,567 | 5,026 | 5,145 | 6,106 | 6,072 | 4,971 |
| Swyddfa Cymru – arall(3) | 37 | 23 | 42 | 43 | 33 | 60 | 60 | 60 |
| **Adnodd Swyddfa Cymru**(3) | **4,923** | **5,006** | **5,609** | **5,069** | **5,178** | **6,166** | **6,132** | **5,031** |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 145 | 96 | 0 | 130 | 185 | 724 | 724 | 25 |
| **DEL Adnodd a Chyfalaf Chyfalaf Swyddfa Cymru**(3) | **5,068** | **5,102** | **5,609** | **5,199** | **5,363** | **6,890** | **6,856** | **5,056** |
| *Llai dibrisiad; taliadau anariannol ac amhariadau* | *–48* | *–236* | *–61* | *–227* | *–70* | *–75* | *–70* | *–70* |
| **DEL Swyddfa Cymru**(4) | **5,020** | **4,866** | **5,548** | **4,972** | **5,293** | **6,815** | **6,786** | **4,986** |

(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.
(2) Yn cynnwys Newidiadau Cyllidebol oherwydd CLOS
(3) Gan gynnwys dibrisiad ac amhariadau
(4) Adnodd + cyfalaf – dibrisiad ac amhariadau
(5) Yn unol â chonfensiwn, mynegir cyllidebau Terfynau Gwariant fel adnoddau a chyfalaf llai dibrisiad ac amhariadau. Felly, ni fydd y rhifau adnodd a chyfalaf yn y tabl hwn yn adion union i'r Terfyn Gwariant Ariannol (DEL): dibrisiad ac amhariadau yw'r gwahaniaeth.

| | 2007-08 alldro £'000 | 2008-09 alldro £'000 | 2009-10 alldro £'000 | 2010-11 alldro £'000 | 2011-12 alldro £'000 | 2012-13 cynlluniau £'000 | 2013-14 cynlluniau £'000 | 2014-15 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DEL Llywodraeth Cymru a Chyfanswm Grant Bloc Cymru** | | | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru(1)(2)(7) | | | | | | | | |
| Adnodd Llywodraeth Cymru(3) | 12,253,358 | 12,816,248 | 13,536,421 | 13,788,840 | 13,659,988 | 13,844,781 | 13,986,416 | 14,043,340 |
| Cyfalaf Llywodraeth Cymru | 1,461,436 | 1,626,521 | 1,931,711 | 1,751,150 | 1,385,459 | 1,231,978 | 1,148,613 | 1,201,688 |
| **DEL Llywodraeth Cymru**(3)(7) | **13,714,794** | **14,442,769** | **15,468,132** | **15,539,990** | **15,045,447** | **15,076,759** | **15,135,029** | **15,245,028** |
| *llai dibrisiad ac amhariadau* | *–239,273* | *–324,263* | *–404,920* | *–269,607* | *–316,673* | *–405,349* | *–388,726* | *–385,543* |
| **DEL Llywodraeth Cymru**(4)(7) | **13,475,521** | **14,118,506** | **15,063,212** | **15,270,383** | **14,728,774** | **14,671,410** | **14,746,303** | **14,859,485** |
| **DEL Swyddfa Cymru**(4) | **5,020** | **4,866** | **5,548** | **4,972** | **5,293** | **6,815** | **6,786** | **4,986** |
| **Cyfanswm Grant Bloc Cymru**(4)(5)(6) | **13,480,541** | **14,123,372** | **15,068,760** | **15,275,355** | **14,734,067** | **14,678,225** | **14,753,089** | **14,864,471** |

(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol oherwydd CLOS
(3) Gan gynnwys dibrisiad ac amhariadau
(4) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiad ac amhariadau
(5) Yn unol â chonfensiwn, mynegir cyllidebau Terfynau Gwariant Adrannol fel adnoddau a chyfalaf llai dibrisiad ac amhariadau. Felly, ni fydd y ffigyrau adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn adio'n union i'r Terfyn Gwariant Adrannol: dibrisiad ac amhariadau yw'r gwahaniaeth
(6) DEL Swyddfa Cymru + DEL Llywodraeth Cymru heb gynnwys dibrisiad ac amhariadau
(7) Mae ffigyrau DEL ar gyfer blynyddoedd alldro wedi'u newid i adlewyrchu newidiadau cyllido dilynol

## TABL 2

## Newidiadau i Derfynau Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11 i 2014-15 ers Mehefin 2011

| | 2010-11 £m Alldro | 2011-12 £m Alldro Dros Dro | 2012-13 £m Cynlluniau | 2013-14 £m Cynlluniau | 2014-15 £m Cynlluniau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sefyllfa ym Mehefin 2011 heb gynnwys dibrisiad** | 15,298.0 | 14,688.5 | 14,616.6 | 14,661.6 | 14,767.3 |
| *ynghyd â dibrisiad ac amhariadau* | *285.4* | *378.3* | *405.3* | *388.7* | *385.5* |
| ***Isgyfanswm*** | ***15,583.4*** | ***15,066.9*** | ***15,022.0*** | ***15,050.3*** | ***15,152.9*** |
| Trosglwyddiadau rhyngadrannol | | | | | |
| i DEFRA: Asiantaeth yr Amgylchedd | 0.0 | -1.7 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| o DEFRA: Iechyd anifeiliaid | 0.0 | 1.2 | 1.0 | 0.8 | 0.6 |
| I BIS: Costau mapio'r sector gyhoeddus | 0.0 | -2.1 | -1.9 | -1.8 | -1.7 |
| Polisi Gwariant | | | | | |
| Hawliad Cronfa Wrth Gefn: Benthyciadau Myfyrwyr | 0.0 | 25.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Costau pensiwn diffoddwyr tân | 0.0 | 0.0 | -0.3 | -0.3 | 0.0 |
| Canlyniadau Barnett | | | | | |
| Datganiad Hydref 2011: Rhewi Treth y Cyngor | 0.0 | 38.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Datganiad Hydref 2011: Growing Places | 0.0 | 12.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Datganiad Hydref 2011: Gwasanaethau Cynghori am Ddim | 0.0 | 1.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Datganiad Hydref 2011: Cludiant | 0.0 | 0.0 | 3.6 | 24.2 | 37.5 |
| Datganiad Hydref 2011: Twf a Gwyrdd | 0.0 | 0.0 | 3.5 | 19.4 | 34.8 |
| Datganiad Hydref 2011: Addysg | 0.0 | 0.0 | 16.7 | 27.4 | 25.1 |
| Datganiad Hydref 2011: Tai | 0.0 | 0.0 | 15.0 | 10.1 | -0.8 |
| Datganiad Hydref 2011: Cytundeb Ieuenctid | 0.0 | 0.0 | 4.7 | 4.0 | 4.0 |
| Datganiad Hydref 2011: Arall | 0.0 | 0.0 | 7.3 | -2.1 | -6.2 |
| Cyllideb 2012: Get Britain Building | 0.0 | 0.0 | 5.4 | 2.1 | -2.0 |
| Cyllideb 2012: Gwasanaethau Cynghori am Ddim | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.0 | 1.0 |
| Y Gemau Olympaidd | 0.0 | 8.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Alldro adrannol (tanwariant o'i gymharu â chynlluniau terfynol) | | | | | |
| Alldro Terfynol 2010–11 | -43.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Alldro Dros Dro 2011–12 | 0.0 | -105.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| ***Isgyfanswm*** | ***-43.4*** | ***-21.4*** | ***54.8*** | ***84.7*** | ***92.2*** |
| **DEL Cyfalaf ynghyd â DEL Adnodd** | **15,540.0** | **15,045.4** | **15,076.8** | **15,135.0** | **15,245.0** |
| *Llai Dibrisiad ac Amhariadau* | *269.6* | *316.7* | *405.3* | *388.7* | *385.5* |
| **Sefyllfa ym Mehefin 2011 heb gynnwys dibrisiad** | **15,270.4** | **14,728.8** | **14,671.4** | **14,746.3** | **14,859.5** |

(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.

## TABL 3

## Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2010-11: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL[(1)(2)] | 15,530,824 | 15,589,389 | 15,527,575 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel AME | 693,635 | 370,722 | 261,899 |
| Cyfanswm Gwariant a Reolir | 16,224,459 | 15,960,111 | 15,789,474 |
| *Llai:* | | | |
| Gwariant Nas Dyfarnwyd: | | | |
| Cymeradwyaeth Credyd ALl | 163,396 | 163,396 | 163,396 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau Anariannol | 412,257 | 443,257 | 406,394 |
| AME Anariannol | 555,560 | 231,735 | 117,781 |
| **CYFANSWM YR AME NAS DYFARNWYD** | **1,137,291** | **844,466** | **693,649** |
| **CYFANSWM Y TME A DDYFARNWYD** | **15,087,168** | **15,115,645** | **15,095,825** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol | -953,184 | -894,377 | -932,699 |
| Derbyniadau NDR | -881,810 | -867,000 | -896,417 |
| **Cyfanswm** | **-1,834,994** | **-1,761,377** | **-1,829,116** |
| *Ynghyd â:* | | | |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Blaenau Gwent | 45,000 | 43,272 | 43,272 |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Gwynedd | 17,329 | 17,329 | 17,329 |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Castell-nedd/Port Talbot | | 40,700 | 36,451 |
| **Newid ym malans Cronfa Gyfunol Cymru & symudiadau mewn cyfalaf gweithredol** | | | -114,692 |
| **Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,314,503** | **13,455,569** | **13,249,069** |

Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.

(1) DEL adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiad
(2) Ffigyrau heb eu newid ar gyfer newidiadau cyllido dilynol

## TABL 4

## Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2011-12: Darpariaeth ac Alldro Amcangyfrifedig

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Dros Dro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL[(1)(2)] | 15,066,870 | 15,150,753 | 15,045,447 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel AME | 318,789 | 430,228 | 314,798 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **15,385,659** | **15,580,981** | **15,360,245** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 120,211 | 120,211 | 120,208 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 431,149 | 455,099 | 426,122 |
| AME Anariannol | 164,726 | 286,803 | 146,807 |
| **CYFANSWM YR AME NAS DYFARNWYD** | **722,164** | **868,191** | **699,215** |
| **CYFANSWM Y TME A DDYFARNWYD** | **14,663,495** | **14,712,790** | **14,661,030** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol | -886,953 | -878,324 | -878,323 |
| Derbyniadau NDR | -867,000 | -970,000 | -970,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,753,953** | **-1,848,324** | **-1,848,323** |
| Newid ym malans Cronfa Gyfunol Cymru & symudiadau mewn cyfalaf gweithredol | 1,325 | 1,325 | -20,924 |
| **Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,910,867** | **12,865,791** | **12,791,783** |

Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.
(1) DEL adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant
(2) Ffigyrau heb eu newid ar gyfer newidiadau cyllido dilynol

## TABL 5

## Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2012-13: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | |
|---|---:|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL[(1)] | 15,076,759 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel AME | 405,773 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | **15,482,532** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd:* | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 107,299 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 472,999 |
| AME Anariannol | 221,714 |
| **CYFANSWM YR AME NAS DYFARNWYD** | **808,090** |
| **CYFANSWM Y TME A DDYFARNWYD** | **14,674,442** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol | –886,492 |
| Derbyniadau NDR | –944,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,830,492** |
| Addasiadau Amseru | |
| Cynnydd/Gostyngiad mewn Dyledwyr a Chredydwyr | 535 |
| Defnyddio Darpariaethau | 0 |
| **Grant a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,844,485** |

Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigyrau.
(1) DEL adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant

# 7 Adroddiad Tâl

## Adrannau Archwiliadwy

Yn unol â gofynion Atodlen 7A Deddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond adrannau penodol yr Adroddiad Tâl sydd wedi cael archwiliad allanol llawn. Mae'r rhain yn cynnwys yr adrannau ar hawliadau cyflog a phensiwn.

## Polisi Tâl

Pennir tâl uwch weision sifil gan y Prif Weinidog yn sgil cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch Swyddogion .

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ynghylch tâl a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar dâl, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion ac Eraill 1975

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu wedi ystyried yr ystyiaethau dilynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i wneud eu dyletswyddau amrywiol;
- Amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- Polisïau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys yr angen i Adrannau gyrraedd targedau allbwn ar gyfer cyflawni gwasanaethau Adrannol;
- Y cyllid sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- Tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Bydd y Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu ar gael yn www.ome.uk.com

## Tâl aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Penderfynwyd ar gyflogau Uwch Reolwyr Swyddfa Cymru gan bwyllgor tâl y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â'r rheolau a ddisgrifir ym Mhennod 7.1, Atodiad A Cod Rheolwyr y Gwasanaeth Sifil.

Seilir dyfarniadau tâl ar asesiad o berfformiad yn ôl amcanion a gytunir rhwng yr unigolyn a'r rheolwr llinell ar ddechrau'r flwyddyn adrodd. Bydd perfformiad hefyd yn effeithio ar unrhyw elfen o fonws a ddyfarnir.

## Contractau Gwasanaeth

Penodir staff i'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n mynnu y gwneir penodiadau yn ôl haeddiant ar sail cystadleuaeth deg ac agored ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai bod datganiad i'r gwrthwyneb isod, mae gan y swyddogion sy'n destun yr adroddiad hwn benodiadau penagored. Byddai terfyniad cynnar, ac eithrio oherwydd camymddygiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ar gael yn civilservicecommission.independent.gov.uk.

## Hawliadau cyflog a phensiwn Gweinidogion

Dangosir hawliadau cyflog, buddion trethadwy mewn nwyddau a phensiwn Gweinidogion yn y tablau dilynol. Mae ffigyrau cyflog yn cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond cyfrifir yr eitemau cyfwerth am y flwyddyn lawn heb gynnwys lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys manylion tâl a buddiannau pensiwn y Gweinidogion ac uwch reolwyr yr Adan.

## Tâl (cyflog a buddion mewn nwyddau) (Mae'r adran hon wedi'i harchwilio)

| Tâl | 2011-12 | | 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (yn cynnwys lwfansau) £ | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ | Cyflog (yn cynnwys lwfansau) £ | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ |
| Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (o 12 Mai 2010) | 68,827 | | 61,056 (68,827 yn gyfwerth â blwyddyn lawn) | – |
| David Jones AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 12 Mai 2010) | 23,697 | | 20,894 (23,697 yn gyfwerth â blwyddyn gyfan) | – |
| Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd at 12 Ebrill 2010) | amherthnasol | amherthnasol | 8,847 (78,356 yn gyfwerth â blwyddyn lawn) | – |
| Wayne David AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 12 Ebrill 2010) | amherthnasol | amherthnasol | 3,483 (30,851 yn gyfwerth â blwyddyn lawn) | – |
| Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Wallace o Tankerness CF, Adfocad Cyffredinol Yr Alban (o 12 Mai 2010)† | – | – | – | – |

***Nodiadau i'r tabl:***

Arhosodd Gweinidogion y weinyddiaeth flaenorol yn eu swyddi hyd at ffurfiad y lywodraeth glymbleidiol cyfredol ar 12 o Fai 2010 yn dilyn yr etholidad cyffredinol ar 6 o Fai 2010. Mae cymhariaethau blynyddol flaenorol ar gyfer gyn Weinidogion wedi eu cynnwys ar gyfer ilwyrdeb."

†Mae'r Gwir Anrydeddus yr Arglwydd Wallace o Tankerness QC, Adfocad Cyffredinol yr Alban, yn delio â materion Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi. Telir ei Gyflog, lwfansau a buddion pensiwn Gweinidogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

| Buddion Pensiwn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar oedran 65 ar 31 Mawrth 2012 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran 65 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2012 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i ail-gyfrifo) £000 | CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i gyhoeddi) £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
| Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (o 12 Mai 2010) | 0–5 | 0–2.5 | 62 | 36 | 34 | 16 |
| David Jones AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 12 Mai 2010) | 0–5 | 0–2.5 | 17 | 8 | 11 | 5 |
| Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd at 12 Ebrill 2010) | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | 295 | amherthnasol |
| Wayne David AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 12 Ebrill 2010) | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | 25 | amherthnasol |
| Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Wallace o Tankerness CF, Adfocad Cyffredinol Yr Alban (o 12 Mai 2010)† | – | – | – | – | – | – |

***Nodiadau i'r tabl:***

Amcangyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i gyhoeddi) gan ddefnyddio rhagdybiaethau yr actiwari a oedd yn gymwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i ailamcangyfrif) yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn seiliedig ar grisaliad y rhagdybiaethau elw hynny.

†Mae'r Gwair Anrhydeddus yr Arglwydd Wallace o Tankerness QC, Adfocad Cyffredinol yr Alban, yn delio â materion Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi. Telir ei Gyflog, lwfansau a buddion pensiwn Gweinidogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Pensiynau Gweinidogion

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd(PCPF). Gwneir y cynllun dan statud (disgrifir y rheoliadau yn Offeryn Statudol SI 1993 Rhif 3253, fel y'i diwygiwyd).

Gall y Gweinidogion sy'n Aelodau'r Senedd hefyd gronni pensiwn AS dan y PCPF (nas cynhwysir ei fanylion yn yr adroddiad hwn). Mae'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion yn darparu buddion ar sail 'cyflog ar gyfartaledd' gan ystyried eu holl wasanaeth fel Gweinidog. Mae'r gyfradd gronni yn 1/40 ers 15 Gorffennaf 2002 (neu 5 Gorffennaf 2001 i'r sawl a ddewisodd ôl-ddyddio'r newid) ond gall Gweinidogion, fel pob aelod arall o'r PCPF, ddewis cyfradd gronni o 1/50 a chyfradd is o gyfraniad gan y cyflogai. Cyflwynwyd opsiwn cyfradd gronni o 1/60 (wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2008) o 1 Ionawr 2010.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy ar yr un pryd ag y daw buddion ASau yn daladwy dan y PCPF neu, i'r rhai hynny nad ydynt yn ASau, wrth ymddeol o'r swydd Weinidogol pan fyddant yn 65 neu'n hŷn. Caiff pensiynau eu hail-brisio'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. O 1 Ebrill 2009, bydd aelodau'n talu cyfraniadau o 5.9% o'u salari Gweinidogol os ydynt wedi dewis y gyfradd gronni o 1/60, 7.9% o'u cyflog os ydynt wedi dewis y gyfradd gronni o 1/50 neu 11.9% o'u cyflog os ydynt wedi dewis y gyfradd gronni o 1/40. Mae cyfraniad gan y cyflogwr hefyd o 28.7% gyflog Gweinidog a delir gan y Trysorlys, sy'n cynrychioli gweddill y gost yn unol â chyngor Actiwari'r Llywodraeth. Bydd cynnydd mewn cyfraniadau aelodau a thaliadau treth yn weithredol o 1 Ebrill 2012.

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan Weinidog i'w gael pan fydd yn cyrraedd 65, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn 65.

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafog a asesir gan yr actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg neilltuol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol y priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn perthyn i'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni fel canlyniad i'w holl wasanaeth Gweinidogol, nid ei benodiad cyfredol fel Gweinidog yn unig. Amcangyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion fel canlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Mewn gwirionedd dyma elfen y cynnydd mewn pensiwn cronedig a ariannir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y Gweinidog, ac fe'i amcangyfrifir gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Hawliadau cyflog a phensiwn Uwch Reolwyr

Mae ffigyrau cyflog yn cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond amcangyfrifir yr eitemau cyfwerth am y flwyddyn lawn heb gynnwys lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Seilir bonysau ar lefelau perfformiad a gyflawnwyd ac fe'u gwneir fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a adroddir amdanynt yn 2011-12 yn ymwneud â pherfformiad yn 2010-11 ac mae'r bonysau cymharol a adroddir amdanynt yn 2010-11 yn ymwneud â pherfformiad yn 2009-10.

Dangosir hawliadau cyflog, buddion trethadwy mewn nwyddau a phensiwn Uwch Reolwyr yn y tablau dilynol.

| Tâl | 2011-12 | | | 2010-11 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch Reolwyr** | **Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau)** | **Taliadau Bonws** | **Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)** | **Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau)** | **Taliadau Bonws** | **Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)** |
| | **£000** | **£000** | **£** | **£000** | **£000** | **£** |
| Fiona Adams Jones Pennaeth Swyddfa Cymru† | 90–95 | | 13,300 | 90–95 | | |
| Glynne Jones Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Strategaeth a Dirprwy Bennaeth Swyddfa Cymru | 70–75 | 5–10 | | 70–75 | 5–10 | |
| Tim Hemming Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi †† | 60–65 | | 6,300 | 60–65 | | 6,000 |
| Stephen Hillcoat Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 65–70 | | | 65–70 | | |

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Tâl | 2011-12 | | | 2010-11 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch Reolwyr** | **Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau)** | **Bonysau 2010-11 wedi'u talu yn 2011-12** | **Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)** | **Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau)** | **Bonysau 2009-10 wedi'u talu yn 2010-11** | **Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)** |
| | **£000** | **£000** | **£** | **£000** | **£000** | **£** |
| David Crawley Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli a Chyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 5–10 | – | – | 5–10 | – | – |
| Ian Summers, Cyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 5–10 | – | – | 5–10 | – | – |

† Mae Fiona Adams Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru. Mae Swyddfa Cymru yn talu am eich chostau llety a chyfleustodau yn Llundain.

†† Roedd Swyddfa Cymru yn talu'r costau teithio tan fis Rhagfyr 2011.

Cefnogwyd yr Uwch Reolwyr gan yr Uwch Swyddogion dilynol, a oedd hefyd yn aelodau naill ai o'r Bwrdd Rheoli neu'r Is-bwyllgor

Archwilio a Risg: Tricia Quiller-Croasdell, Dawn Brace, a Gill Lambert.

## Lluosrifau Tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr unigolyn sy'n cael y tâl mwyaf yn y sefydliad ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

£105,800 oedd cyflog yr unigolyn a gafodd y tâl mwyaf yn Swyddfa Cymru yn y flwyddyn ariannol 2011-12. (*Cyfrifir y cyflog fel y canolbwynt y band £90,000 – 95,000, yn ogystal â buddion mewn nwyddau*). Roedd hyn yn 3.6 gwaith cyflog canolrifol y gweithlu, sef £29,500.

Cyflog yr unigolyn oedd â'r enillion mwyaf yn Swyddfa Cymru yn 2010-11 oedd £92,500. Roedd hyn yn 3.1 gwaith cyflog canolrifol y gweithlu, sef £29,500.

| Tâl | 2011-12 | | 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|
| Canolrif Staff | Nifer | £'000 | Nifer | £'000 |
| Cyfanswm Tâl Staff Parhaol (ac eithrio'r Cyfarwyddwr â'r tâl uchaf) | | 2,876 | | 2,879 |
| Cyfanswm Staff Parhaol (ac eithrio'r Cyfarwyddwr â'r tâl uchaf) | *56 | | *54 | |
| | | | | |
| Tâl Canolrifol Staff Parhaol | | 29.5 | | 29.5 |
| | | | | |
| Cyfarwyddwr â'r Tâl Uchaf Canolrif Band Cyflog (yn cynnwys Buddion mewn Nwyddau) | | 105.8 | | 92.5 |
| | | | | |
| Fel lluosrif o Dâl Canolrifol Staff Parhaol | | 3.6 | | 3.1 |

* Nodyn i'r tabl: Nifer y staff ar y gyflogrestr, heb gynnwys y Cyfarwyddwr â'r enillion mwyaf, ar 31 Mawrth.

## Iawndal am golli swydd

Ni chafodd unrhyw uwch reolwr daliadau iawndal yn 2011–12 (£Dim yn 2010–11).

## Contractau Gwasanaeth

| Uwch Reolwyr | Dyddiad Cychwyn y Contract | Cyfnod annarfodedig (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Fiona Adams Jones Pennaeth Swyddfa Cymru† | 25 Chwefror 1974 | 7 | 3 |
| Glynne Jones Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Senedd | 16 Ionawr 1989 | 21 | 3 |
| Tim Hemming Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi | 5 Medi 1994 | 26 | 3 |
| Stephen Hillcoat Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat | 26 Tachwedd 1986 | 23 | 3 |

***Nodiadau i'r tabl:***

Ni roddwyd contractau i Uwch Weision Sifil tan 1996; ble ymunodd pobl cyn contractau, mae'r tabl yn dangos eu dyddiad ymuno.

Cyfnod Annarfodedig yw naill ai cyfnod y cytundeb sy'n weddill yn achos cytundebau cyfnod penodol neu pan fo unigolyn yn 65 ar gyfer pob achos arall.

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronedig a chyfandaliad perthnasol ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2012 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2011 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2011 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i ail-gyfrifo) £000 | CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i gyhoeddi) £000 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fiona Adams Jones Pennaeth Swyddfa Cymru† | 40–45 ynghyd â chyfandaliad 125–130 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 0–2.5 | 894 | 844 | 891 | (22) |
| Glynne Jones Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Senedd | 20–25 ynghyd â chyfandaliad 60–65 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 0–2.5 | 318 | 296 | amherthnasol | (3) |
| Tim Hemming Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi | 20–25 ynghyd â chyfandaliad 65–70 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 0–2.5 | 309 | 275 | amherthnasol | 10 |
| Stephen Hillcoat Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat | 10–15 ynghyd â chyfandaliad 35–40 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 0–2.5 | 156 | 142 | amherthnasol | 2 |

***Nodiadau i'r tabl:***

Amcangyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i gyhoeddi) gan ddefnyddio rhagdybiaethau gan actiwari a oedd yn gymwys ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2011 (wedi'i ailamcangyfrif) yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn seiliedig ar grisaliad y rhagdybiaethau elw hynny.

Lle nad yw'n berthnasol; ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth berthnasol.

## Cyflog

Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros; tâl neu fonysau perfformiad; goramser; hawliau neilltuedig i gael pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y caiff hynny ei drethu yn y DU.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a roddir gan y cyflogwr ac a ystyrir yn dâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

Mae buddion mewn nwyddau yn amcangyfrif, oherwydd bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Chyllid a Thollau EM yn cytuno ar y gwerth terfynol.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil berthyn i un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (*classic, premium neu classic plus*); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Ni ariennir y trefniadau statudol hyn, â thelir am gost y buddion hyn ag arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau *classic, premium, classic plus* a *nuvos* yn flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Gallai aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai y trefniant buddion diffinedig priodol neu bensiwn 'prynu arian' o ansawdd dda i randdeiliaid â chyfraniad arwyddocaol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn patneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn 1.5% o enillion pensiynadwy yn achos y cynllun clasurol a 3.5% yn achos cynlluniau *premium, classic plus* a *nuvos*. Mae buddion y cynllun *classic* yn cronni ar gyfradd o 1/80 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Yn achos y cynllun premium, mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae *Classic plus* yn ei hanfod yn hybrid sydd â buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fwy neu lai fel y cynllun classic a chaiff buddion am wasanaeth o Hydref 2002 ymlaen eu cyfrifo fel y cynllun *premium*.

Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn cronni ei bensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn enilledig yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac, yn syth ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, uwchraddir y pensiwn cronedig yn unol â CPI. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan *Ddeddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniad pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) wrth ddewis cynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond ble bydd yn dewis gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu'r un swm hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu wedi mynd heibio oed pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau *classic, premium* a *classic plus* a 65 yn achos aelodau *nuvos*.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar gael ar wefan www.civilservice.gov.uk/pensions

## Y Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafog a asesir gan yr actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol y priod sy’n daladwy o’r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo buddion yn mae wedi’u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn perthyn i’r buddion mae’r unigolyn wedi’u cronni o canlyniad i’w holl aelodaeth o’r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn capasiti uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae’r ffigyrau’n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r unigolyn wedi’u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i’r aelod fel canlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost ei hunain. Cyfrifir CETVs yn unol â’r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae’n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Fiona Adams Jones**
**Prif Swyddog Cyfrifyddu**

**4 Medi 2012**

# 8 Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifydda

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo bod Swyddfa Cymru'n paratoi, ar gyfer pob blwyddn ariannol, gyfrifon adnoddau i fanylu ar yr adnoddau sydd wedi'u cael, eu dal neu wedi eu gadael i fynd yn ystod y flwddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratöir y cyfrifon ar sylfaen o groniadau ac mae rhaid iddynt gyflwyno barn wir a theg ar gyflwr materion Swyddfa Cymru a'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newididau o ran ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae angen i'r Swyddog Cyfrifydda gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig i:

- roi sylw i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, yn cynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifydda a datgelu;
- darparu barn ac amcangyfrifon ar sylfaen resymol;
- datgan a ddilynwyd sofonau cyfrifydda priodol fel a gyflwynir yn y have been followed, and disclose and explain any material departures in the accounts; and
- pharatoi'r cyfrifon ar sylfaen busnes gweithredol.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru fel Swyddog Cyfrifydda Swyddfa Cymru. Cyflwynir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifydda, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae'r Swyddog Cyfrifydda'n atebol drostynt, am gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau Swyddfa Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

# 9 Datganiad ar Lywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn cyflwyno'r sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru arni; y ffordd mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut mae'n atebol am yr hyn mae'n ei wneud Mae'n disodli'r 'Datganiad ar Reolaeth Fewnol' gynt ac fe'i bwriedir i ddarparu datganiad mwy cynhwysfawr ac mwy addas ar y sail y gall y Swyddog Cyfrifydda roi sicrwydd arni ynghylch gweithrediad iawn y Swyddfa a'i stiwardiaeth o arian cyhoeddus.

## Statws a rôl Swyddfa Cymru

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar yr un pryd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Ei phwrpas allweddol yw cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn y DU, darparu llais i Gymru wrth fwrdd y Cabinet a chynrychioli Llywodraeth EM yng Nghymru. Hefyd mae'n gyfrifol am y trosglwyddiad llyfn o arian a bleidleisir i Lywodraeth Cymru gan y Senedd (Grant Bloc Cymru). Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau cyffredinol hyn, ac yn unol ag Adrannau Gwladol eraill, mae Swyddfa Cymru'n gyfrifol am sefydlu trefniadau cadarn ynghylch llywodraethu a rheoli risg.

O 12 Mehefin 2003 tan 31 Mawrth 2011, ymgorfforwyd Swyddfa Cymru o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) at ddibenion gweinyddol. Ar 1 Ebrill 2011, yn sgil newid ynghylch Peirianwaith Llywodraeth a ddaeth â phob un o'r tair Swyddfa Diriogaethol o dan ymbarél gweinyddol Swyddfa'r Cabinet, daeth Swyddfa Cymru'n Adran annibynnol a fyddai'n cynhyrchu cyfrifol blynyddol annibynnol. Dynodwyd ei Chyfarwyddwr, pryd hynny, yn Brif Swyddog Cyfrifydda (ar ôl bod yn Swyddog Cyfrifydda Ychwanegol o'r blaen).

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, a'r ddiwylliant a gwerthoedd, mae Swyddfa Cymru'n cael ei chyfarwyddo a'i rheoli ganddynt a'r modd y mae'n rhoi cyfrif i'r Senedd trwyddo. Mae'n trafod y broses y mae Gweinidogion a rheolwyr uwch yn monitro ei amcanion trwyddi ac yn ystyried a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at gyflawni canlyniadau priodol, cost-effeithiol. Rhan arwyddocaol o'r fframwaith yw'r system ar gyfer adnabod a rheoli risg.

## Fframwaith llywodraethu

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n darparu cyfarwyddyd gwleidyddol i Swyddfa Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae hi'n cael ei chefnogi'n wleidyddol gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ac yn weinyddol gan dîm bach o weision sifil a arweinir gan Gyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

Trwy gydol 2011-12, arolygwyd cyflawniad polisi a pherfformiad gan Fwrdd Rheoli dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr oedd yn cynnwys 5 uwch-reolwr ynghyd ag un aelod annibynnol anweithredol o'r bwrdd (NEBM). Roedd cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys gosod amcanion a chanlyniadau'r sefydliad mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn unol â'i blaenoriaethau strategol, gan gynnig yr arweinyddiaeth a'r gallu i gyflawni'r amcanion hynny a goruchwylio'r dull o gyflawni'r canlyniadau hynny.. Mae'r bwrdd yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn adrodd drwyddi hi i'r Senedd ar gyflawni amcanion yr Adran.

Ym mis Mai a mis Medi 2011, cynhaliwyd cyfarfodydd strategol chwemisol rhwng y Bwrdd Rheoli a'r ddau Weinidog, wedi'u cyd-gadeirio gan y prif NEBM a'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y cyfarfodydd hynny yn montiro perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 4 Blynedd yr Adran, yn seiliedig ar syniadau a blaenoriaethau diweddaraf y Gweinidogion. Roedd y cyfarfodydd hynny'n adeiladu ar y rhai a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yn ychwanegol, cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod dwyochrog wythnosol â'r Cyfarwyddwr i drafod polisi, strategaeth a materion Adrannol; fe wnaeth hi hefyd gadeirio cyfarfodydd wythnos yr uwch dîm rheoli llawn a'r tîm seneddol, oedd yn cydgysylltu a thrafod busnes Adrannol a Gweinidogaethol oedd ar y gweill.

## Rôl y Prif Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yw ei Phrif Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a gafodd yn ei llythyr apwyntio ac fel y nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*, mae hi'n gyfrifol am lywodraethu Swyddfa Cymru.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau fod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol, ac yn arddangos safon uchel o gywirdeb. Mae'r sefydliad yn anelu at:

## Llywodraethu

- meddu ar strwythur llywodraethu sy'n trosglwyddo, dirprwyo, gweithredu a gorfodi penderfyniadau
- meddu ar reolaethau mewnol dibynadwy i ddiogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd o adnoddau cyhoeddus yn ôl y bwriad
- gweithredu'n briodol gan ystyried yr angen i gynnal busnes cyhoeddus yn briodol
- trin ei chwsmeriaid a'i chymheiriaid busnes yn deg ac yn onest
- rhoi adroddiadau amserol, tryloyw a realistig o'i busnes

## Gwneud Penderfyniadau

- cefnogi ei Gweinidogion â chyngor clir, rhesymegol, amserol a diduedd
- gwneud ei holl benderfyniadau yn unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad, fel y cawsant eu pennu gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth
- diwallu gofynion y Trysorlys ar gyfyngiadau ar ddefnydd adnoddau cyhoeddus
- rheoli ei staff yn deg, â pholisïau a gynlluniwyd i annog ac integreiddio amrywiaeth
- cyfathrebu ei phenderfyniadau yn agored a thryloyw.

## Rheolaeth ariannol

- sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn briodol
- defnyddio ei hadnoddau yn effeithlon, yn economaidd ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlonedd
- caffael a gwerthuso prosiectau yn wrthrychol ac yn deg, gan geisio gwerth da am arian i'r sector cyhoeddus cyfan
- defnyddio systemau gwybodaeth rheoli i gael sicrwydd am werth am arian ac ansawdd y ddarpariaeth ac felly gwneud addasiadau amserol
- osgoi gor-ddiffinio manylion a gosod costau cydymffurfio diangen, naill ai ar ei staff ei hun neu ar ei chwsmeriaid a'i rhanddeiliaid
- meddu ar drefniadau ymarferol wedi'u dogfennu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill
- ddefnyddio archwilio mewnol ac allanol i wella ei rheolaethau mewnol a'i pherfformiad.

Mae gan Swyddfa Cymru Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a gadeirir gan aelod anweithredol y bwrdd, ac mae'n cynnwys un aelod anweithredol annibynnol arall ac un o uwch swyddogion Swyddfa Cymru. Mae'r pwyllgor hwn yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio y Trysorlys ac yn cyfarfod yn chwarterol

Dyma fanylion presenoldeb yn y Bwrdd Rheoli a'r Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn:

Bwrdd Rheoli

| | **Nifer Cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli a fynychwyd mewn blwyddyn (bu cyfanswm o 5)** |
|---|---|
| Fiona Adams Jones (Cyfarwyddwr, Cadeirydd) | 5 |
| David Crawley (Prif Gyfarwyddwr Anweithredol) | 5 |
| Glynne Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Strategaeth a Dirprwy Bennaeth Swyddfa Cymru) | 5 |
| Tim Hemming (Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi) | 4 |
| Stephen Hillcoat (Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrevu) | 3 |
| Tricia Quiller-Croasdell (yn ei swydd ers Gorffennaf 2011) (Pennaeth Cyfathrebu) | 2 |
| Dawn Brace (yn ei swydd ers Gorffennaf 2011) (Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Newid Sefydliadol) | 4 |

Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| | **Nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a fynychwyd yn y flwyddyn (roedd cyfanswm o 4)** |
|---|---|
| David Crawley (Cadeirydd; Prif Gyfarwyddwr Anweithredol) | 4 |
| Ian Summers (Aelod Anweithredol) | 4 |
| Glynne Jones (tan fis Hydref 2011) (Dirprwy Gyfarwyddwr) | 3 |
| Gill Lambert (yn lle Glynne Jones o fis Tachwedd 2011); (Dirprwy Bennaeth Polisi) | 1 |
| *Yn bresennol: Fiona Adams Jones (Cyfarwyddwr) | 3 |

Hefyd Roedd y strwythur llywodraethu hefyd yn cynnwys dau Is-bwyllgor arall:

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch (H&S) yn gyfrifol am:

- gynghori'r Bwrdd ar sicrhau bod Swyddfa Cymru'n darparu amgylchedd gwaith iach a diogel ar gyfer ei staff, Gweinidogion ac ymwelwyr;
- rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch a nodwyd a monitro cynnydd yn ôl y Cynllun Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol; a
- pharhau i wella perfformiad a safonau Iechyd a Diogelwch, ac ymdrechu i ragori ar yr holl safonau, codau ymarfer a rheoliadau statudol a gofynion cyfreithiol perthnasol.

Cwrddodd yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth aelod o'r Bwrdd Rheoli, deirgwaith yn ystod 2011-12 gan ystyried amrywiaeth o faterion, yn cynnwys hyfforddiant i staff ar faterion iechyd a diogelwch, gyrru wrth eu gwaith, a gweithio unigol.

Ac Is-bwyllgor Newid ac Effeithlonrwydd oedd yn gyfrifol am:

- nodi a chytuno ar yr arbedion effeithlonrwydd i'w hargymell i'r Bwrdd i'w cyflawni dros y cyfnod a gynhwysir yn setliad cyllidebol Swyddfa Cymru o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diwethaf;
- cadw golwg ar ddatblygiad a darpariaeth y prosiect Cydwasanaethau sy'n anelu at symleiddio a chryfhau'r gwasanaethau cefn swyddfa sy'n cefnogi Swyddfa Cymru, Swyddfa'r Alban a Swyddfa Gogledd Iwerddon; a
- pharatoi Cynllun Newid ac Effeithlonrwydd, a monitro ei weithrediad.

Fe wnaeth yr Is-bwyllgor, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr, drafod a nodi argymhellion ar y gwaith cychwynnol i'w wneud gan ei droi yn ddatganiad cyntaf o raglen weithredu glir ag amserlen (y Cynllun Newid ac Effeithlonrwydd).

## Amcanion Busnes

Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru'n nodi'r amcanion strategol dilynol:

| | |
|---|---|
| *Amcan 1:* | Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru. |
| *Amcan 2:* | Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn y Llywodraeth, a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau'r Llywodraeth yng Nghymru |
| *Amcan 3:* | Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru |
| *Amcan 4:* | Cynnal ein busnes â chwrteisi, effeithlonrwydd a phriodoldeb |

Wrth weithio tuag at yr amcanion hyn mae Swyddfa Cymru'n ymrwymedig i gadw at ei gwerthoedd craidd drwy'r amser, sef:

- rhagoriaeth ac ansawdd ym mhopeth a wnawn;
- anelu at fod yn gyflogwyr rhagorol, yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles ein staff;
- tryloywder a gwaith partneriaeth.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Trwy gydol 2011–12, trefnwyd Swyddfa Cymru'n dair adran er mwyn cyflawni ei swyddogaethau:

1.) Polisi; 2.) Swyddfa Breifat a Chyfathrebu; a 3.) Strategaeth, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol. Arweiniwyd pob un o'r rhain gan Ddirprwy Gyfarwyddwr oedd yn atebol i'r Cyfarwyddwr. Dirprwywyd cyllidebau i arweinwyr tîm o fewn pob adran, o dan arolygiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr perthnasol.

Cafodd cyllidebau timau eu monitro'n fisol gan yr uwch dîm a chafodd adroddiadau ariannol chwarterol eu hadolygu a'u trafod gan y Bwrdd Rheoli. Cwrddodd yr uwch dîm rheoli yn wythnosol i arolygu a chydgysylltu busnes o ddydd i ddydd, materion rheoli, a materion cyllidebol.

Mae gan yr Adran Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle rhyngddi hi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am fwyafrif ei hanghenion caffael ac ar gyfer amrediad eang o wasanaethau staffio, llety ac ariannol. Yn achlysurol ond ar brydiau, bydd yn ymgymryd â chaffaeliadau bach unigol ei hunan, o dan reolau caffael y Llywodraeth (er enghraifft, yn 2011–12, i sicrhau gwasanaethau darparwr mewnrwyd).

## Perfformiad

Bu adolygiadau Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn ar: brosesau bancio; rheoli rhanddeiliaid; cynhyrchu cyfrifon; a phrosesau llywodraethu corfforaethol. Rhoddodd adroddiad ffurfiol pob un o'r adolygiadau hyn farn archwilio gadarnhaol ar strwythurau llywodraethu, rheoli risg a phrosesau rheoli'r Adran.

Roedd enghreifftiau o faterion a ystyriwyd gan y Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cynhyrchu'r Cynllun Busnes Adrannol;
- Creu mewnrwyd Adrannol;
- Adolygu a diweddaru polisi gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban Swyddfa Cymru;
- Cynllun Ymddeol Cynnar Gwirfoddol; a
- Gwaith cyfalaf i gynnal ac atgyweirio Tŷ Gwydyr.

Roedd rhai o'r materion a ystyriwyd gan yr Is-bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys:

- Cynllunio Parhad Busnes;
- Cofrestrau risg yr Adran a'r gweithdai rheoli risg blynyddol i staff; a
- TAW ar wasanaethau a ddarperir i'r Adran.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Fe wnaeth Swyddfa Cymru gymryd ystyriaeth lawn (hefyd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Weithredu'r Bwrdd Adrannol) o ganllawiau Trysorlys EM ar *Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog* (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws newydd fel Adran annibynnol ond ar raddfa sy'n briodol i'w maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth- sef cynnig cefnogaeth a chyngor ar bolisi i Weinidogion Swyddfa Cymru yn hytrach na darparu rhaglenni neu wasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Yn y flwyddyn sy'n dod mae'r Adran yn bwriadu mynd i'r afael â'r meysydd hynny ble nad yw'n cydymffurfio'n llawn â'r cyfarwyddyd ar hyn o bryd, sef:

- bydd yr Adran yn adnewyddu a chynyddu ymhellach nifer aelodau anweithredol ei bwrdd. Daw'r ddau NEBM presennol â sgiliau a phrofiad gwerthfawr iawn sy'n arbennig o berthnasol i Swyddfa Cymru yn ystod y cyfnod hwn o bontio i Adran annibynnol â chyfrifoldeb ariannol llawn. Mae gan y prif NEBM brofiad helaetho gyllid cyhoeddus fel cyn Swyddog Cyfrifyddu ac mae ganddo brofiad helaeth fel aelod ar lefel uwch o Fyrddau mewn sefydliadau cyhoeddus ac elusennol o bwys. Mae gan yr ail NEBM brofiad sylweddol o gyfrifyddu ac archwilio cyhoeddus ar lefel uwch yn ogystal â gweithredu o fewn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bydd yr Adran yn chwilio am NEBMau ychwanegol i barhau i wella effeithiolrwydd ei Bwrdd; ac

- o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (2012-13), bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth Adrannol, â'r prif NEBM fel Cadeirydd bob yn ail â hi.

I gyfannu rôl y Bwrdd Strategaeth Adrannol, cyfrifoldeb Is-bwyllgor y Rheolwyr Gweithredol fydd rheoli gweithredol ac arweinyddiaeth y gwasanaeth sifil o ddydd i ddydd, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr, â'r prif NEBM fel Cadeirydd bob yn ail â hi, a daw'r aelodau o blith uwch swyddogion yr Adran, ynghyd â'r ail NEBM. Bydd y prif NEBM yn arwain adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau newydd, i'w gwblhau cyn diwedd 2012-13.

## Adnabod a rheoli risg

Cynllunir system reoli mewnol Swyddfa Cymru i nodi risg busnes a'i rheoli hyd at lefel rhesymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaol a gynllunir i nodi a blaenoriaethu risgiau rhag cyflawni amcanion Swyddfa Cymru, i werthuso'r debygoliaeth o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith posibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Amlygwyd cadernid y system hon gan ymdriniaeth yr Adran â sefydlu Comisiwn Annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru. Roedd hwn yn ymrwymiad yn 'Rhaglen ar gyfer Llywodraeth' y Llywodraeth Glymblaid ac roedd angen ymrwymiad sylweddol ynghylch adnoddau gan yr Adran o ran cyfansoddi a darparu adnoddau i'r Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth. Nodwyd risgiau a rhoddwyd cynlluniau yn eu lle i sicrhau cyflawniad llwyddiannus. Er bod y Commisiwn wedi cael ei sefydlu erbyn hyn a rhan gyntaf ei waith yn mynd rhagddo'n dda, mae cynlluniau wrth gefn yn dal yn eu lle fel bod y Comisiwn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i gyflawni ei fandad o fewn yr amserlen gytûn.

Yn yr un modd dangosir ymateb yr Adran i risg yn ei hymateb cyflym i drychineb Pwll Gleision, pan gysylltodd yr Adran â'r Trysorlys i gael cyfraniad gan Lywodraeth EM i'r elusen, i sicrhau nad oedd dan anfantais o ran y swm o Gymorth Rhodd y gallai ei adennill rhwng cael ei sefydlu a chofrestru'n ffurfiol fel elusen; ac yn ei hymateb i'r newid mewn Peirianwaith Llywodraeth yn Ebrill 2011 oedd yh cynnwys adolygiad cynhwysfawr a chryfhau strwythur llywodraethu'r Adran.

## Y gallu i ymdrin â risg

Cafodd risgiau eu nodi a'u hegluro ar lefel strategol a gweithredol, gan y Bwrdd Rheoli ac ar lefel weithio gan y canghennau o fewn y dair adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau'n sylfaen i'r Gofrestr Risg Adrannol cyffredinol ac yn cyfrannu ati, a chafodd ei hadolygu'n chwarterol gan y Bwrdd Rheoli. Bu'r Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu'r ffordd yr ymdrinwyd â risgiau allweddol ym mhob un o'i gyfarfodydd chwarterol gan edrych yn fanylach ar risgiau unigol penodol a'r ffordd yr ymdriniwyd â nhw.

## Fframwaith risg a rheoli

Roedd gan Swyddfa Cymru Fframwaith a Strategaeth Polisi Rheoli Risg yn ei lle, wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a gafod gyngor gan yr Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Dyma'r elfennau allweddol:

- proses ffurfiol i adnabod, gwerthuso, rheoli a rhoi gwybod am risg;
- system o ddadansoddi ac adroddiadau sy'n nodi risg rhag cyflawni amcanion, effaith a thebygoliaeth risg, camau gweithredu lliniarus cyfredol ac arfaethedig a pherchnogion risg unigol;
- rhaglen ffurfiol a disgyblaethau rheoli prosiect, yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg; a
- hyfforddiant blynyddol a gweithdai ymwybyddiaeth o reoli risg.

Cefnogwyd effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg gan waith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr uwch a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, yr Is-bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl reolaethau allweddol, a adnabuwyd o ganlyniad i asesiad o risgiau busnes allweddol a'r meysydd ariannol allweddol dilynol, yn eu lle ac wedi'u gweithredu. Yn neilltuol:

- cafodd yr holl wariant/incwm ei gofnodi a'i wario/dderbyn yn briodol a chyson;
- roedd yr holl wariant/incwm a wariwyd ac a dderbyniwyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, yn cynnwys y rheini a ddarparodd y fframwaith cyfreithiol roedd Swyddfa Cymru'n cynnal ei gweithgareddau o'i fewn.
- dosbarthwyd gwariant yn iawn a gwnaed trosglwyddiadau o wariant rhwng dosbarthiadau gwariant yn unol â'r Llawlyfr Cyllid;
- nid oedd achosion o dorri awdurdod ariannol dirprwyedig;
- cafodd cyllidebau eu monitro'n rheolaidd, cymharwyd gwariant gwirioneddol â rhagolygon, a hysbyswyd y Bwrdd am amrywiadau;
- roedd rheolaethau yn eu lle i sicrhau bod asedau Swyddfa Cymru wedi'u gwarchod rhag cael eu defnyddio neu gael gwared arnynt heb awdurdod;
- roedd gweithdrefnau rheoli yn eu lle i warchod rhag twyll;
- cafodd asedau gwybodaeth eu monitro a chafodd risgiau eu hasesu, adrodd, cofnodi ac archwilio'n iawn;
- roedd gweithdrefnau rheoli'n bodoli i alluogi'r Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb am Wybodaeth (SIRO) i warchod rhag torri diogelwch gwybodaeth; ac
- nid oedd achosion o dorri'r polisi lletygarwch a rhoddion.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Archwilio a Risg

Rhoddodd y Pwyllgor sylw manwl drwy gydol y flwyddyn i'r materion cyllido, cyfrifyddu a llywodraethu a oedd yn gysylltiedig â'r newid yn statws Swyddfa Cymru yng ngoleuni'r pwysigrwydd o sicrhau bod cyfrifon cywir â sylfaen gadarn wedi'u cyflwyno i'w harchwilio yn ei blwyddyn gyntaf fel Adran annibynnol. Parhaodd y Pwyllgor i arolygu rheoli risg yn agos hefyd, gan ystyried nifer o faterion cyllidol penodol. Yn seiliedig ar ei waith dros y flwyddyn a'r adroddiadau a gafodd yn sgil archwiliadau mewnol, mae'r Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ac ar y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth a weithredir yn yr Adran.

## Asesiad o'r system reolaeth fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn Swyddfa Cymru'n ddigonol i gyflawni amcanion Swyddfa Cymru. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau gweithredu wedi'u cymryd ble nodwyd y perygl o risg, i leihau neu gael gwared ar y risg neu natur y risg neu bod natur y risg wedi'i deall a'i derbyn yn llawn.

**Fiona Adams Jones**
**Prif Swyddog Cyfrifyddu**

**4 Medi 2012**

# 10 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys: Datganiadau'r Adran o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth. Rwyf wedi gwneud fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a fy staff i gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Gwneir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Adran a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol sy'n faterol, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cynrychioli'r alldro yn briodol yn erbyn cyfansymiau rheoli a bleidleisir gan y Senedd ac i sicrhau nad aethpwyd heibio i'r cyfransymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli a bleidleisiwyd arnynt gan y Senedd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Anghyllidebol (Adnodd) a Gofyniad Arian Parod Net. Mae'n ofynnol i mi hefyd i gael digon o dystiolaeth i roi

sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd materol:

- mae'r Datganiad ar Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 ac yn dangos nad aethpwyd heibio i'r cyfansymiau hynny; a
- defnyddiwyd y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn cynnig darlun gwir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2012 a'i chost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan y ddeddf honno.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- cafodd y rhan o'r Adroddiad Tâl a gafodd ei harchwilio ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau'r Adroddiad Blynyddol dan y teitl Cyflawniadau yn ôl Amcan 2011/12, Sylwebaeth Rheoli a'r Datganiad ar Lywodraethu am y flwyddyn ariannol y paratöir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni chafwyd datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad ar Lywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse** **6 Medi 2012**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# 11 Cyfrifon

## Datganiad ar Gyflenwad Seneddol

### Crynodeb o Alldro Adnodd a Chyfalaf 2011-12

| | | Amcangyfrif 2011-12 | | | Alldro 2011-12 | | | Wedi'i Bleidleisio 2011-12 | Alldro 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbedion/ (dros-ben) | |
| | Nodyn | Wedi'i bleidleisio £000 | Heb ei bleidleisio £000 | Cyfanswm £000 | Wedi'i bleidleisio £000 | Heb ei bleidleisio £000 | Cyfanswm £000 | £000 | Cyfanswm £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | 2.1 | 5,903 | – | 5,903 | 5,178 | – | 5,178 | 725 | 5,069 |
| –Cyfalaf | 2.2 | 724 | – | 724 | 185 | – | 185 | 539 | 130 |
| **Gwariant Blynyddol a Reolir** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | 2.1 | 109 | – | 109 | 109 | – | 109 | – | – |
| –Cyfalaf | 2.2 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | 6,736 | – | 6,736 | 5,472 | – | 5,472 | 1,264 | 5,199 |
| **Heb ei Gyllidebu** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | 2.1 | 12,865,791 | – | 12,865,791 | 12,791,783 | – | 12,791,783 | 74,008 | 13,244,000 |
| **Cyfanswm** | | **12,872,527** | **–** | **12,872,527** | **12,797,255** | **–** | **12,797,255** | **75,272** | **13,249,199** |
| Cyfanswm Adnoddau | | 12,871,803 | – | 12,871,803 | 12,797,070 | – | 12,797,070 | 74,733 | 13,249,069 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 724 | – | 724 | 185 | – | 185 | 539 | 130 |
| **Cyfanswm** | | **12,872,527** | **–** | **12,872,527** | **12,797,255** | **–** | **12,797,255** | **75,272** | **13,249,199** |

**Gofyniad arian parod net 2011-12**

| | | 2011-12 | | | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbedion/ (dros-ben) £000 | Alldro £000 |
| Gofyniad arian parod net | 4 | 12,872,218 | 12,796,722 | 75,496 | 13,249,299 |

**Costau gweinyddu 2011-12**

| | Amcangyfrif 2011-12 £000 | Alldro 2011-12 £000 | Alldro 2010-11 £000 |
|---|---|---|---|
| 3 | 5,843 | 5,254 | 5,026 |

Rhoddir esboniad o wahaniaethau rhwng Amcangyfrif ac Alldro yn Nodyn 2 a Sylwadau’r Rheolwyr ar dudalennau 21–23.

Mae’r nodiadau ar Dudalennau 58 i 83 yn rhan o’r cyfrifon hyn

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | 2011-12 Adran Graidd £000 | 2010-11 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddu:** | | | |
| Costau Staff | **6.1** | 3,155 | 3,185 |
| Costau gweinyddu eraill | **7** | 2,111 | 1,847 |
| Incwm gweithredu | **9** | (39) | (7) |
| **Costau Rhaglen:** | | | |
| Costau Staff | **6.1** | | |
| Costau rhaglen | **8** | 12,791,816 | 13,244,043 |
| Llog NLF taladwy | | 1,700 | 1,706 |
| Llog NLF derbynadwy | | (1,700) | (1,706) |
| **Cost Gweithredu Net** | | **12,797,043** | **13,249,068** |
| Cyfanswm gwariant | | 12,797,082 | 13,249,075 |
| Cyfanswm incwm | | (39) | (7) |
| **Cost Gweithredu Net** | | **12,797,043** | **13,249,068** |

## Gwariant Cynhwysfawr Arall

| | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|
| **Cost Gweithredu Net** | 12,797,043 | 13,249,068 |
| Elw/(colled) net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | (485) | (9) |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012** | **12,796,558** | **13,249,059** |

Daw'r holl weithgareddau'n o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 58 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad ór Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 3,665 | 3,113 |
| Asedau ariannol | 11 | 11,613 | 11,665 |
| Eitemau derbyniadwy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | 20 | – |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | 15,298 | 14,778 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Eitemau derbyniadwy masnach ac eraill | 12 | 276 | 1,143 |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth | 13 | 232 | 837 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 508 | 1,980 |
| **Cyfanswm asedau** | | 15,806 | 16,758 |
| **Dyledion cyfredol** | | | |
| Eitemau taladwy masnach ac eraill | 14.1 | (1,528) | (2,683) |
| ***Cyfanswm dyledion cyfredol*** | | (1,528) | (2,683) |
| **Asedau llai dyledion cyfredol net** | | 14,278 | 14,075 |
| **Dyledion anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 15 | (109) | – |
| Eitemau taladwy eraill | 14.1 | (11,613) | (11,665) |
| **Cyfanswm dyledion anghyfredol** | | (11,722) | (11,665) |
| **Asedau llai dyledion** | | **2,556** | **2,410** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 49 | 369 |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 2,507 | 2,041 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,556** | **2,410** |

**Fiona Adams Jones**
**Prif Swyddog Cyfrifyddu**

**4 Medi 2012**

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 58 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad ar Lifau Arian
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | 2011-12 £000 | 2010-11 £000 |
|---|---|---|---|
| **Lliifau arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Cost gweithredu net | | (12,797,043) | (13,249,068) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | 7 | 204 | 196 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn eitemau derbyniadwy masnach ac eraill | 12.1 | 847 | 33 |
| *Llai: Symudiadau mewn eitemau derbyniadwy nad ydynt wedi pasio trwy'r DWNC* | | (7) | (6) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn eitemau taladwy masnach | 14.1 | (1,207) | (149) |
| *Llai: Symudiadau mewn eitemau taladwy nad ydynt wedi pasio trwy'r DWNC* | | 689 | (305) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 15 | (20) | - |
| ***All-lif arian net o weithgareddau gweithredu*** | | **(12,796,537)** | **(13,249,299)** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 2.2 | (185) | - |
| Ad-dalu benthyciadau gan gyrff eraill | | 45 | 39 |
| ***All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi*** | | **(140)** | **39** |
| **Lllifau arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) - Blwyddyn Gyfredol | | 12,796,083 | 13,249,350 |
| Ad-dalu benthyciadau o'r NLF | | (45) | (39) |
| ***Ariannu net*** | | **12,796,038** | **13,249,311** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer y cyfnod cyn addasiad am dderbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (639) | 51 |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd oddi allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 29,144 | 15,533 |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | 5.2 | (29,110) | (15,526) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer y cyfnod ar ôi addasiad am dderbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(605)** | **58** |
| **Arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 13 | **837** | **779** |
| **Arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 13 | **232** | **837** |

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 58 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol | Y Gronfa ailbrision wrth Gefn | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar1 Ebrill 2010** | | (185) | (2,033) | (2,218) |
| Addasiadau sy'n perthyn i'r flwyddyn flaenorol | | 155 | | 155 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2010** | | **(30)** | **(2,033)** | **(2,063)** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| – Wedi'i dynnu i lawr | SCF | (13,249,350) | | (13,249,350) |
| – Tybiedig | | (779) | | (779) |
| Cyflenwad Heb ei wario wedi'i dynnu i lawr yn ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 14.1 | 830 | | 830 |
| Incwm dros ben | 5.1 | 7 | | 7 |
| Incwm Dros Ben am y Flwyddyn Flaenorol | | 2 | | 2 |
| Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn | | 13,249,068 | (9) | 13,249,059 |
| **Ffioedd anariannol** | | | | |
| – Tâl yr Archwilydd | 7 | (15) | | (15) |
| – Gorbenion corfforaethol | 7 | (105) | | (105) |
| **Symudiadau mewn Cronfeydd** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | (1) | 1 | – |
| Arall | | 4 | | 4 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | **(369)** | **(2,041)** | **(2,410)** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2011** | | (369) | (2,041) | (2,410) |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| – Wedi'i dynnu i lawr | SCF | (12,796,083) | | (12,796,083) |
| – Tybiedig | | (830) | | (830) |
| Cyflenwad Heb ei wario wedi'i dynnu i lawr yn ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 14.1 | 198 | | 198 |
| CFERs yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 5.1 | 27 | | 27 |
| Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn | | 12,797,043 | (485) | 12,796,558 |
| **Ffioedd anariannol** | | | | |
| – Tâl yr Archwilydd | 7 | (25) | | (25) |
| **Symudiadau Eraill mewn Cronfeydd** | | | | |
| – Asedau Sefydlog | | 48 | – | 48 |
| – Ad-daliadau eraill Adrannau'r Llywodraeth yn perthyn i'r flwyddyn flaenorol | | (39) | – | (39) |
| **Symudiadau mewn Cronfeydd** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | (19) | 19 | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **(49)** | **(2,507)** | **(2,556)** |

Mae’r nodiadau ar Dudalennau 58 i 84 yn rhan o’r cyfrifon hyn

# Nodiadau i'r cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

## 1. Datganiad ar bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sylfaen paratoi

Paratöwyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM 2011-12 (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Ble mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a farnwyd fel yr un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig Swyddfa Cymru at ddibenion cynnig darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau neilltuol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru isod. Fe'i defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn bwysig mewn cysylltiad â'r Cyfrifon hyn.

Yn ychwanegol at y prif ddatganiadau a baratöwyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn galw ar Swyddfa Cymru i baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ar Gyflenwad Seneddol a'i nodiadau cefnogol yn adrodd am alldro yn ôl yr Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net. Arian cyfred gweithredol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw punt sterling Prydain.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon hyn ar sail croniadau dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio asedau anghyfredol a rhestrau eiddo, ble mae'n berthnasol.

### 1.3 Newidiadau peirianwaith y Llywodraeth ac ailddatgan eitemau cymharol

Cyn 1 Ebrill 2011 ystyriwyd bod Swyddfa Cymru'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) at ddibenion gweithredol. Oherwydd hynny, roedd ei thrafodion ariannol yn rhan o gyfrifon y MoJ. Yn weithredol o 1 Ebrill 2011, daeth Swyddfa Cymru'n adran annibynnol â'i Hamcangyfrif ei hunan ac felly mae angen iddi baratoi ei chyfrifon ei hunan.

Ar 1 Ebrill 2011 trosglwyddwyd asedau a dyledion gwerth £2.4m mewn enw i Swyddfa Cymru o'r MoJ yn ôl eu llyfrwerth. Cyfrifwyd am y trosglwyddiad fel cyfuniad busnes gan ddefnyddio egwyddorion cyfrifyddu uno cwmnïau yn unol â'r FReM. Mae'r eitemau cymharol ar gyfer 2010-11 a ddangosir yn y cyfrifon hyn yn adlewyrchu'r newid hwn. Trwy wneud hyn, mae'n ymddangos bod Swyddfa Cymru yn wastad wedi bodoli ar ei ffurf bresennol.

Mae hyn yn galluogi defnyddiwr y cyfrifon i wneud cymariaethau defnyddiol rhwng data'r flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol.

### 1.4 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod Swyddfa Cymru'n darparu swyddogaeth sengl ac o ran adroddiadau IFRS ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

### 1.5 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

*Sail prisio*

Caiff asedau anghyfredol eu datgan yn ôl eu gwerth teg. Wrth eu cydanbod i ddechrau, mesurir asedau ar gost gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i sicrhau eu bod mewn cyflwr gweithio.

*Dull prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased o ran eiddo– Tŷ Gwydyr – a gynhwysir ar ei werth teg, fel a ddehonglir gan yr FReM, ar sail prisiad proffesiynol, a wneir o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Gwneir prisiadau proffesiynol gan Asiantaeth y Swyddfa Briso (VOA) trwy ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sy'n hysbys fel y 'Llyfr Coch'.

Rhwng prisiadau proffesiynol addasir gwerthoedd cario trwy ddefnyddio mynegeion neu drwy brisiadau bwrdd gwaith.

Ystyrir Tŷ Gwydyr yn adeilad arbenigol na ellir ei werthu ar y farchnad agored. Prisir adeiladau arbenigol yn ôl cost amnewid wedi'i ddibrisio (DRC) a sail cyfwerth modern yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried darfodiad swyddogaethol yr adeilad.

Cynhwysir asedau nad ydynt yn eiddo ar gost eu prynu a chânt eu hailddatgan pob dyddiad adrodd trwy ddefnyddio'r Rhifau Mynegai Prisiau (PINCCA) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

*Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn codi o ganlyniad i ailbrisio, cydnabyddir y codiad yn y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisio'r un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr. Credydir unrhyw godiad sy'n weddill yn uniongyrchol i'r gronfa Ailbrisio mewn ecwiti'r Trethdalwyr.

Pan fydd swm cludo ased yn lleihau (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol), cydnabyddir y gostyngiad yn y gronfa Ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli ar gyfer yr ased hwnnw Priodolir unrhyw ostyngiad arall uwchben gweddillion ailbrisio i'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr.

*Trothwy cyfalafu - asedau unigol*

Trothwy cyfalafu Swyddfa Cymru ar gyfer asedau unigol yw £1,000 (yn cynnwys TAW).

*Trothwy cyfalafu - asedau wedi'u grwpio*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fechan o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi'u cyfalafu.

Mae gan Swyddfa Cymru drothwy cyfalafu ar gyfer asedau wedi'u grwpio gwerth £10,000 (yn cynnwys TAW).

*Dibrisio*

Codir dibrisiad ar sail llinell syth ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig yn wastad dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu ar gyfer asedau wedi'u prydlesu, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Adolygir oes ddefnyddiol asedau neu gategorïau asedau yn flynyddol a thrafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau fod y goblygiadau cyllidebu wedi'u hystyried yn iawn. Lle cytunir ar newid mewn oes ased, dibrisir yr ased ar sail llinell syth dros weddill ei oes asesedig. Mae dibrisio'n cychwyn yn y mis yn dilyn caffael ased anghyfredol yn achos tir, adeiladau ac anheddau ac yn yr un mis yn achos yr holl asedau anghyfredol eraill.

Mae oes ddefnyddiol dybiedig asedau o fewn yr amrediadau dilynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | Heb ei ddibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliad (yn cynnwys anheddau) | Y byrraf o'r oes sy'n weddill neu 60 mlynedd |
| Asedau wedi'u grwpio | Yn amrywio yn ôl mathau o asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Y byrraf o weddill cyfnod y brydles neu 3 i 15 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Y byrraf o weddill cyfnod y brydles neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Y byrraf o weddill cyfnod y brydles neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau'n cael eu hadeiladu | Heb eu dibrisio |

Adolygir y gwerthoedd cario am amhariadau os yw digwyddiadau neu newidiadau o ran amgylchiadau'n dangos y posibilrwydd na ellir adennill y gwerth cario. Os penderfynir bod ased yn amharedig, gostyngir gwerth yr ased yn syth i'w swm adennill.

*Cael gwared ar asedau anghyfredol*

Pennir ar enillion a cholledion cael gwared ar asedau anghyfredol trwy gymharu'r elw â'r swm cario ac fe'u cydnabyddir o fewn costau Gweinyddu neu Raglen, fel y bo'n briodol, yn y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir asedau a ailbrisiwyd, trosglwyddir y symiau a gynhwysir yn y gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

*Asedau'n cael eu hadeiladu*

Prisir Asedau'n cael eu hadeiladu ar gost hanesyddol o fewn Eiddo, periannau a chyfarpar ac asedau Anghyffyrddadwy ac ni chânt eu dibrisio na'u hamorteiddio. Ni ystyrir ased yn ased sy'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Yna tynnir ei werth cario o gategori asedau'n cael eu hadeiladu ac fe'i trosglwyddir i'r categori asedau perthnasol. Yna codir dibrisiad neu amorteiddio ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

Cyfalafir gwariant lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio. Priodolir costau staff Swyddfa Cymru ei hunan i'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr, fel sy'n digwydd yn achos costau staff asiantaeth a chontract sy'n ymgymryd â swyddi parhaol a fuasai'n cael eu llenwi gan weision sifil fel arall. Cyfalafir costau ymgynghorwyr allanol a gyflogir ar brosiectau penodol lle gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio.

## 1.6 Asedau Anghyffyrddadwy

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw asedau anghyffyrddadwy

## 1.7 Prydlesi

*Prydlesi ariannol*

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw brydlesi ariannol.

*Prydlesi gweithredol*

Ystyrir prydlesi lle delir y cyfan bron o'r risgiau a'r gwobrau gan ddeiliad y brydles yn brydlesi gweithredol. Priodolir rhenti prydlesi i'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

## 1.8 Buddsoddiadau

*Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF)*

Ystyrir blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn fuddsoddiadau ac fe'u datgelir ar gost hanesyddol. Mae'r balansau o fewn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru. Yna fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Gwledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd y DBRW yn 1998. Yn sgil diddymu'r WDA yn 2006 mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ad-dalu'r benthyciad a'r llog, a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Ildir symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru i'r NLF. Cynhwysir balansau benthyciadau o fewn Masnach ac eitemau taladwy eraill.

## 1.9 Buddion Cyflogeion

### *Croniadau gwyliau cyflogeion*

O dan IAS 19 '*Buddion Cyflogeion*', gwneir croniadau ar gyfer gwyliau blynyddol nas cymerwyd a gwyliau oriau hyblyg Ni chronnir bonysau perfformiad oherwydd ni therfynnir y broses ddyfarnu flynyddol sy'n penderfynu ar dâl perfformiad pan baratöir y cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Cwmpasir cyflogeion blaenorol a phresennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r cynlluniau buddion diffinedig heb eu hariannu ac yn anghyfrannol heblaw am fuddion dibynyddion. Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau cyflogeion trwy dalu i'r PCSPS y symiau a amcangyfrifir ar sail gronnus. Codir tâl ar y PCSPS am daliadau buddion yn y dyfodol. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffinedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### *Costau ymddeol yn gynnar*

Mae angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i'r buddion PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) o ran eu cyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai fod yr ymddeoliad oherwydd rhesymau meddygol cymeradwy. Darperir y cyfanswm yn llawn pan gyhoeddir y rhaglen ymddeol yn gynnar ac mae'n ymrwymol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Lywodraeth Cymru. Caiff y llifau arian amcangyfrifedig a addasir ar gyfer risg eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM o 2.9% (2009–10: 1.8%) mewn termau real.

Bydd Swyddfa Cymru'n talu'r taliadau cyflog terfynol i staff sy'n gadael o dan gynllun Ymddeol Cynnar Gwirfoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru.

## 1.10 Incwm gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cynnwys incwm a geir i wneud yn iawn am wariant perthynol ac incwm a ildir wrth ei dderbyn i'r Gronfa Gyfunol fel Derbyniadau Ychwanegol.

## 1.11 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol(CFERau)

Amcangyfrifir balansau CFERau ar sail croniadau, oni byddir yn datgan fel arall. Mae mwyafrif y rhain yn perthyn i symiau a gafwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru a ddynodwyd gan y Trysorlys dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Trosglwyddir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol ac fe'u priodolir i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cael symiau trwy adennill ernesau coll o etholiadau i'r Cynulliad. Mae Swyddfa Cymru'n talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y DU.

## 1.12 Gwariant Gweinyddu a Rhaglen

Mae'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant gweinyddu ar gyfer costau gweithredu Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant rhaglen am dreuliau'r Arglwydd Raglawiaid a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru dan adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.13 Costau anariannol

*Arall*

Costau anariannol yw cost y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) am archwilio'r datganiadau ariannol.

## 1.14 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Swyddfa Cymru ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol presennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, y mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd arno i setlo'r ymrwymiad, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ohonno am faint yr ymrwymiad.

Mae darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad. Lle mae effaith y disgowntio'n sylweddol, mesurir darpariaethau ar eu gwerth presennol gan ddefnyddio'r gyfradd wirioneddol a osodir gan Drysorlys EM, ar hyn o bryd 2.6%; o'i gymharu, 2.7% oedd cyfradd 2010-11.

## 1.15 Treth Ar Werth (TAW)

Codir TAW na ellir ei adennill ar y categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau prynu cyfalafedig asedau anghyfredol. Lle codir treth allbwn neu lle gellir adennill treth fewnbwn, datganir y symiau heb gynnwys TAW.

## 1.16 Offerynnau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol a dyledion ariannol sy'n codi o gontractau ar gyfer prynu a gwerthu eitemau anariannol (fel nwyddau a gwasanaethau), yr ymrymir iddynt yn unol â gofyniad prynu, gwerthu neu ddefnydd arferol Swyddfa Cymru, pan fydd perfformiad yn digwydd ac i'r graddau y bydd yn digwydd. Cydnabyddir yr holl asedau ariannol a dyledion ariannol eraill pan ddaw Swyddfa Cymru'n barti i'r darpariaethau cytundebol i dderbyn neu wneud taliadau ariannol. Caiff dyledion ariannol eu datgydnabod pan gaiff y cytundeb sy'n arwain atynt ei setlo neu ei ganslo neu pan ddaw i ben.

*Dosbarthu a mesur - asedau ariannol*

Yn ychwanegol at Arian ac eitemau cyfwerth ag arian, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

*Benthyciadau ac eitemau derbyniadwy*

Mae benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'n cynnwys eitemau masnach derbyniadwy, eitemau derbyniadwy eraill a benthyciadau sydd â thaliadau

penodol neu fesuradwy nas datganir mewn marchnad weithredol. Yn y lle cyntaf cydnabyddir benthyciadau ac eitemau derbyniadwy ar werth teg ac wedyn fe'u mesurir ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol heb gynnwys unrhyw amhariad. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r gyfradd llog weithredol. Mae'r gyfradd llog weithredol yn ddull o amcangyfrif cost amorteiddiedig ased ariannol ac o ddyrannu refeniw neu wariant llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio llifau arian tybiedig y dyfodol.

## 1.17 Arian ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian

Mae arian ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian a gofnodir yn y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad ar Lif Arian yn cynnwys arian parod, adneuon a gedwir ar alw mewn banciau, buddsoddiadau tymor byr hylifol iawn â chyfnodau gweddilliol gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftau banciau.

## 1.18 Amcangyfrifon a rhagdybiaethau cyfrifyddu arwyddocaol

Mae'r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch y dyfodol. Trwy ddiffiniad, mae'n annhebygol y bydd amcangyfrifon yr un peth â chanlyniadau go iawn. Gwerthusir amcangyfrifon yn gyson ac fe'u seilir ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau'r dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

Eir i'r afael isod â'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sy'yn eithaf tebygol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a dyledion o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

### *Darpariaeth am Ddyledion a Thaliadau*

Mae'r darpariaethau am ddyledion a thaliadau a hysbysir yn nodyn 15 yn adlewyrchu barn am y debygoliaeth y bydd trosglwyddiad o fuddion economaidd yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol. Lle tybir bod y debygoliaeth o ddyled yn crisialu yn debygol a lle gellir mesur yr effaith â sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Lle tybir bod y debygoliaeth o ddyledion posibl yn crisialu yn bosibl, datgelir dyled amodol.

### *Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen gwneud penderfyniad wrth ddosbarthu prydlesi ar y cychwyn naill ai fel prydlesi gweithredu neu brydlesi ariannol. Lle prydlesir tor ac adeiladau gyda'i gilydd, gall yr elfennau adeilad a thir gael eu cyfalafu fel prydlesi ariannol ar wahân os byddant yn diwallu'r meini prawf ar gyfer prydles ariannol. Os na chaiff y taliadau prydles dan gontract eu rhannu rhwng y tir a'r adeiladau yng nghontract y brydles, gwneir y rhaniad ar sail gwerthoedd marchnad y tir a'r adeiladau ar ddechrau'r brydles.

## 2. Dadansoddiad o alldro yn ôl yr adran

## 2.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau Net yn ôl yr adran

| | 2011-12 All-dro | | | | | | | 2011-12 Amcangyfrif | | 2010-11 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Weinyddu | | | Rhaglen | | | | | | |
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net o'i gymharu ag i'r Amcangyfrif | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran (DEL)** | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 4,938 | (12) | 4,926 | 33 | – | 33 | 4,959 | 5,572 | 613 | 5,069 |
| B Comisiwn ar Ddatganoli | 219 | – | 219 | – | – | – | 219 | 331 | 112 | – |
| **Cyfanswm Gwariant a Bleidleisiwyd yn DEL** | **5,157** | **(12)** | **5,145** | **33** | **–** | **33** | **5,178** | **5,903** | **725** | **5,069** |
| **Gwariant o fewn Gwriant Blynyddol a Reolir (AME)** | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | |
| C Darpariaethau | 109 | – | 109 | – | – | – | 109 | 109 | – | – |
| **Cyfanswm; Gwariant a Bleidleisiwyd yn AME** | **109** | **–** | **109** | **–** | **–** | **–** | **109** | **109** | **–** | **–** |
| **Gwariant Heb ei Gyllidebu** | | | | | | | | | | |
| D Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 12,791,783 | – | 12,791,783 | 12,791,783 | 12,865,791 | 74,008 | 13,244,000 |
| **Cyfanswm ar gyfer Amcangyfrif:** | – | – | – | 12,791,783 | – | 12,791,783 | 12,791,783 | 12,865,791 | 74,008 | 13,244,000 |
| **Sy'n cynnwys:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm a bleidleisiwyd yn yr Amcangyfrif** | **5,266** | **(12)** | **5,254** | **12,791,816** | **–** | **12,791,816** | **12,797,070** | **12,871,803** | **74,733** | **13,249,069** |

Eglurir gwahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrif ac Alldro yn Sylwebaeth Rheoli ym mhennod 5 yr Adroddiad Blynyddol

## 2.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf net yn ôl adran

| | 2011-12 All-dro | | | 2011-12 Amcangyfrif | | 2010-11 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm net Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran (DEL)** | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 185 | | 185 | 724 | 539 | 130 |
| **Cyfanswm Gwariant a bleidleisiwyd yn DEL** | 185 | – | 185 | 724 | 539 | 130 |
| **Cyfanswm ar gyfer Amcangyfrif:** | **185** | **–** | **185** | **724** | **539** | **130** |
| **Sy'n cynnwys:** | | | | | | |
| **Cyfanswm a bleidleisiwyd fel Amcangyfrif:** | **185** | **–** | **185** | **724** | **539** | **130** |

Eglurir gwahaniaethau arwyddocaol rhwng amcangyfrif ac Alldro yn Sylwebaeth Rheoli ym mhennod 5 yr Adroddiad Blynyddol

## 3. Cysoni alldro â'r costau gweithredu net ac yn erbyn Cyllideb Gweinyddu

### 3.1 Cysoni alldro adnoddau Net â chost gweithredu net

| | | 2011-12 | | | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag amcangyfrif | Alldro |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad ar Gyflenwad Seneddol** | | | | | |
| Cyllidebol | 2 | 5,287 | 6,012 | 725 | 5,069 |
| Nid yn y Gyllideb | 2 | 12,791,783 | 12,865,791 | 74,008 | 13,244,000 |
| | | **12,797,070** | **12,871,803** | **74,733** | **13,249,069** |
| **Llai:** | | | | | |
| Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (7) | | (27) | – | 27 | |
| Gorbenion | | – | – | – | 105 |
| | | **(27)** | **–** | **27** | **98** |
| **Costau Gweithredu Net yn y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr (am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012)** | | **12,797,043** | **12,871,803** | **74,760** | **13,249,167** |

Mae nodyn 2 yn darparu dadansoddiad o'r tanwariant yn erbyn Amcangyfrif Cyflenwad yn ôl is-bennawd. Esbonir y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng Amcangyfrif ac Alldro yn Sylwadau'r Rheolwyr ym mhennod 5. Mae'r gwahaniaeth ar sail cost gweithredu yn debyg.

## 3.2 Alldro yn erbyn cyllideb Gweinyddu terfynol â chost gweithredu net Gweinyddu

| | Nodyn | 2011-12<br>£000 | 2010-11<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Terfyn Costau Gweinyddu | | 5,843 | 5,510 |
| Alldro – Costau Gweinyddu Gros | 2.1 | 5,266 | 5,033 |
| Alldro – Incwm Gros yn ymwneud â Chostau Gweinyddu<br>(7) | 2.1 | (12) | |
| Alldro – Costau Gweinyddu Net | | 5,254 | 5,026 |
| Cysoni â chostau gweithredu: | | | |
| Llai: darpariaethau a ddefnyddiwyd (trosglwyddo o Raglen) | | – | – |
| Llai: Arall | 5.1 | (27) | – |
| **Costau Gweithredu Net Gweinyddu** | | **5,227** | **5,026** |

Mae'r rheolaeth Seneddol ar gostau gweinyddu yn gymwys i adrannau yn unol â FReM Pennod 11.

## 4. Cysoni gofyniad arian Net â chodiad/(gostyniad) mewn arian

| | Nodyn | 2011-12<br>£000 | 2010-11<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian net** | SCF | **(12,796,722)** | **(13,249,299)** |
| Symiau o'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad):<br>– blwyddyn gyfredol | SCF | 12,796,083 | 13,249,350 |
| Derbyniwyd mewn blwyddyn flaenorol a heb ei dalu drosodd: CFERS | 14.1 | 7 | 7 |
| Wedi'i dderbyn yn y flwyddyn a heb ei dalu drosodd: CFERS | 14.1 | 27 | – |
| Trafodion y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol: | | | |
| Prif daliadau a drosglwyddwyd | 14.1 | (45) | (39) |
| Prif daliadau a gafwyd gan gyrff eraill | 14.1 | 45 | 39 |
| Llog a gafwyd gan gyrff eraill | | 1,700 | 1,706 |
| Llog a dalwyd drosodd | | (1,700) | (1,706) |
| **Codiad/(Gostyngiad) mewn arian** | | **(605)** | **58** |
| Arian cychwynnol | 13 | 837 | 779 |
| Arian cau | 13 | 232 | 837 |
| **Codiad/(Gostyngiad) mewn arian** | | **(605)** | **58** |

## 5. Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (27)– 27(7)

## 5.1 Dadansoddiad ór incwm sy’n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Mae'r incwm dilynol yn ymwneud â'r adran ac mae'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian mewn teip italig)

| | | Alldro 2011-12 | | Alldro 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Incwm | *Derbyniadau* | Incwm | *Derbyniadau* |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif – Ernesau Etholiadau'r Cynulliad a Fforffedwyd | 9 | 27 | 27 | | |
| Incwm dros ben | 9 | | | 7 | 7 |
| **Cyfanswm incwm yn daladwy i’r Gronfa Gyfunol** | | **27** | **27** | **7** | **7** |

## 5.2 Incwm o'r Gronfa Gyfunol

Nid yw'r incwm o'r Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 5.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru lle roedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na fel y pennaeth. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall heb eu cynnwys yn datganiadau ariannol hyn) oedd:

| | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | *29,110* | 15,526 |
| Ernesau Etholiadau'r Cynulliad a Fforffedwyd | | |
| Incwm dros ben | | |
| | **29,110** | **15,526** |
| Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | **29,110** | **15,526** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 29,110 | 15,526 |
| Balans a gedwir mewn cronfa ar ddiwedd y flwyddyn | | |

Mae'r incwm yn codi o ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr £28,903,000, Pont Cleddau £100,000, Tai Cymru £10,000, Llog Banc £36,000 ac Incwm Amrywiol Arall £61,000.

# 6. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

## 6.1 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

| | 31 Mawrth 2012 | | | | | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir Yn barhaol | Eraill | Gweinidogion | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Tâl a Chyflogau | 2,376 | 86 | 93 | 39 | 2,593 | 2,557 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 189 | – | 9 | 4 | 202 | 206 |
| Costau pensiwn eraill | 403 | – | – | 8 | 412 | 426 |
| **Is-gyfanswm** | 2,968 | 86 | 102 | 51 | 3,207 | 3,189 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | – | (52) | – | – | (52) | (4) |
| **Cyfanswm Costau Net** | **2,968** | **34** | **102** | **51** | **3,155** | **3,185** |
| Sy'n cynnwys: | | | | | | |
| Priodolwyd i Gostau Gweinyddu | 2,968 | 34 | 102 | 51 | 3,155 | 3,185 |
| Priodolwyd i Gostau Rhaglen | – | – | – | – | – | – |
| | **2,968** | **34** | **102** | **51** | **3,155** | **3,185** |

O'r symiau uchod, y symiau y gellir eu priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:–

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tâl a Chyflogau | 89 | 11 | – | – | 100 | – |
| Costau nawdd cymdeithasol | 9 | – | – | – | 9 | – |
| Costau pensiwn eraill | 14 | – | – | – | 14 | – |
| **Is-gyfanswm** | **112** | **11** | – | – | **123** | – |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm Costau Net** | **112** | **11** | – | – | **123** | – |

## 6.2 Nifer gyfartalog y staff a gyflogir yn Swyddfa Cymru

Dangosir y nifer gyfartalog o staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

| | | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| **Adran Graidd** | | | |
| | **Staff parhaol** | 54.0 | 55.0 |
| | **Eraill** | 1.0 | 2.0 |
| | **Gweinidogion** | 2.0 | 2.0 |
| | **Cynghorwyr Arbennig** | 1.0 | 1.0 |
| | | – | – |
| | **Cyfanswm** | **58.0** | **60.0** |
| **Cyfanswm Adran Graidd** | | **58.0** | **60.0** |

Mae cyfanswm y staff parhaol yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2012 yn 54 (53.4 FTE) yn cynnwys un aelod o staff asiantaeth (dros dro), tri aelod o staff ar gontractau tymor penodol ac 17 aelod staff ar fenthyg o Lywodraeth Cymru a thri ar fenthyg o Adrannau eraill y Llywodraeth. Yn ychwanegol, roedd tri o staff Swyddfa Cymru ar fenthyciad wedi'i ariannu i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Mae Prif gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffinedig aml-gyflogwr nas ariennir ond ni all Swyddfa Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r dyledion sylfaenol. Gwnaed prisiad actiwari llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 a gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil ar www.civilservice-pensions.gov.uk

Yn 2011-12, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwyr gwerth £412k (2010-11: £426k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% (2010-11: 17.1% i 25.5%) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn sgil prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd, gan adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau pensiwn y cyflogwyr gwerth £0 (2010-11: £0) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliad. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3.0% i 12.5% (2010-11: 3.0% i 12.5%) o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogeion hyd at 3.0% o dâl pensiynadwy.

Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn gyfwerth â 0.8% o dâl pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS i dalu am gost y dyfodol o ddarparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd i gyflogeion yng nghynllun y PCSPS.

Y cyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd oedd £0 (2010-11:£0)

Ni fu unrhyw ymddeoliadau yn ystod 2011-12 (2010-11: Dim) oherwydd afiechyd.

## 7. Costau Gweinyddu Eraill

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | | 632 | 484 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | | 101 | 151 |
| Rhenti dan brydlesi gweithredu: tir ac adeiladau | | 246 | 179 |
| Rhenti dan brydlesi gweithredu: eraill (offer, peiriannau, cerbydau) | | 76 | 201 |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: TG | | 6 | 3 |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: Eraill | | 20 | 29 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu | | 92 | 256 |
| Gwasanaethau eraill ar gontract allanol | | 17 | – |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 53 | 7 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 282 | 281 |
| Hyfforddiant a chostau eraill yn gysylltiedig â staff | | 30 | 13 |
| Ffïoedd a thaliadau banc | | 2 | 2 |
| Gwariant gweinyddu arall | | 79 | 45 |
| Grant Elusennol | | 125 | – |
| Dyrannu gorbenion* | | 146 | – |
| **Eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiad | | 70 | 76 |
| Tâl a threuliau'r archwilwyr | | 25 | 15 |
| Darpariaeth y darperir amdano yn y flwyddyn | | 109 | – |
| Dyrannu gorbenion* | | – | 105 |
| **CYFANSWM** | | **2,111** | **1,847** |

* Noder, priodolwyd gorbenion yn feddal fel taliad anariannol mewn blynyddoedd blaenorol gan fod Swyddfa Cymru'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar 1 Ebrill 2011, daeth Swyddfa Cymru'n gorff annibynnol ac erbyn hyn priodolir gorbenion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Swyddfa Cymru trwy anfoneb flynyddol.

***O'r symiau uchod y symiau y gellir eu priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:–***

| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | 12 | – |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | 6 | – |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu: arall (offer, peiriannau, cerbydau) | 4 | – |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: TG | 2 | – |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu | 22 | – |
| Teithio a chynhaliaeth | 11 | – |
| Hyfforddiant a chostau eraill yn gysylltiedig â staff | 1 | – |
| Gwariant gweinyddu arall | 38 | – |
| **CYFANSWM** | **96** | – |

## 8. Costau Rhaglen

| | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| ***Costau Rhaglen– Swyddfa Cymru*** | | |
| Treuliau'r Arglwydd Raglawiaid | 33 | 43 |
| Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 12,791,783 | 13,244,000 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglen** | **12,791,816** | **13,244,043** |

## 9. Incwm

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm rhenti | | 12 | – |
| **Cyfanswm Incwm** | | **12** | **–** |
| **Yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | | |
| Incwm dros ben | 5.1 | | 7 |
| Ernesau Etholiadau'r Cynulliad a Fforffedwyd | 5.1 | 27 | |
| **Cyfanswm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **27** | **7** |
| **Cyfanswm** | | **39** | **7** |
| Sy'n cynnwys | | | |
| Incwm gweinyddu | | 39 | 7 |
| **Cyfanswm** | | **39** | **7** |

## 10. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Tir | Adeiladau | Pheiriannau Cyfarpar | Gyfrif ac Fitiadau | Taliadau ar Gyfrif a Asedau o dan Adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2011–12** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 2,116 | 961 | 139 | 102 | 130 | 3,448 |
| Ychwanegiadau | – | 118 | – | – | 67 | 185 |
| Ailbrisiadau/lleihad | 484 | – | 1 | 1 | – | 486 |
| Ailddosbarthu | (16) | (33) | – | – | – | (49) |
| Ailddatganiadau | – | – | – | (23) | – | (23) |
| Trosglwyddiadau | – | 130 | – | – | (130) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **2,584** | **1,176** | **140** | **80** | **67** | **4,047** |
| Dibrisio | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | – | (186) | (46) | (103) | – | (335) |
| Priodolwyd yn y flwyddyn | – | (42) | (28) | – | – | (70) |
| Ailbrisiadau/lleihad | – | – | – | (1) | – | (1) |
| Ailddatganiadau | – | – | – | 24 | – | 24 |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **–** | **(228)** | **(74)** | **(80)** | **–** | **(382)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2012** | **2,584** | **948** | **66** | **–** | **67** | **3,665** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2011** | **2,116** | **775** | **93** | **(1)** | **130** | **3,113** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi'u perchenogi** | **2,584** | **948** | **66** | **–** | **67** | **3,665** |

## 10. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar *(parhad)*

| | Tir | Adeiladau | Pheiriannau Cyfarpar | Gyfrif ac Fitiadau | Taliadau ar Gyfrif a Asedau o dan Adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2010–11** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 2,116 | 961 | 128 | 106 | – | 3,311 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | 130 | 130 |
| Ailbrisiadau/ amhariadau | – | – | 11 | (4) | – | 7 |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **2,116** | **961** | **139** | **102** | **130** | **3,448** |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | – | (149) | (17) | (95) | – | (261) |
| Priodolwyd yn y flwyddyn | – | (37) | (28) | (11) | – | (76) |
| Ailbrisiadau/ amhariadau | – | – | (1) | 3 | – | 2 |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | – | **(186)** | **(46)** | **(103)** | – | **(335)** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Mawrth 2011** | **2,116** | **775** | **93** | **(1)** | **130** | **3,113** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2010** | **2,116** | **812** | **111** | **11** | – | **3,050** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi'u perchenogi** | **2,116** | **775** | **93** | **(1)** | **130** | **3,113** |

## 11. Buddsoddiadau

| | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|
| | Benthyciadau a ariannwyd gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol |
| | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | 11,710 |
| Trosglwyddiadau | (45) |
| **Balans ar 31 March 2011** | 11,665 |
| Trosglwyddiadau | (52) |
| **Balans ar 31 March 2012** | **11,613** |

### Benthyciadau a ariannwyd gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF)

Ystyrir blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn fuddsoddiadau ac fe'u datgelir ar gost hanesyddol. Mae'r balansau o fewn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru. Yna fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Gwledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd y DBRW yn 1998. Yn sgil diddymu'r WDA yn 2006 mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ad-dalu'r benthyciad a'r llog, a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Ildir symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru i'r NLF. Cynhwysir balansau benthyciadau o fewn Masnach ac eitemau taladwy eraill.

## 12. Eitemau Derbyniadwy Masnach ac asedau cyfredol eraill

## 12.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012<br>£000 | 31 Mawrth 2011<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Eitemau derbynadwy masnach | | 16 | – |
| Eitemau derbynadwy TAW | | 31 | 9 |
| Adneuon a blaendaliadau | | 2 | 96 |
| Eitemau derbynadwy eraill | | – | 818 |
| Rhagdaliadau (heb fod yn PFI) ac incwm cronedig | | 43 | 42 |
| Rhan bresennol o fenthyciad NLF – llog derbyniadwy | | 132 | 133 |
| Rhan bresennol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 11 | 52 | 45 |
| **Cyfanswm eitemau derbynadwy** | | **276** | **1,143** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012<br>£000 | 31 Mawrth 2011<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Adneuon a blaendaliadau | | 20 | – |
| **Cyfanswm eitemau derbynadwy** | | **20** | **-** |

## 12.2 Balansau Mewnlywodraethol

| | Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2012<br>£000 | 31 Mawrth 2011<br>£000 | 31 Mawrth 2012<br>£000 | 31 Mawrth 2011<br>£000 |
| Balansau â chyrff llywodraeth ganolog eraill | 231 | 1,005 | – | – |
| *Is-gyfanswm:* balansau mewnlywodraethol | 231 | 1,005 | – | – |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 45 | 138 | 20 | – |
| **Cyfanswm eitemau derbynadwy** | **276** | **1,143** | **20** | **–** |

## 13. Arian ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian

| | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 837 | 779 |
| Newid net mewn arian ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian | (605) | 58 |
| Balans ar 31 Mawrth | 232 | 837 |
| Cadwyd y balansau dilynol yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | (20) | 822 |
| Banciau masnachol ac arian parod | 252 | 15 |
| **Cyfanswm** | **232** | **837** |

## 14. Eitemau Masnach Taladwy a dyledion cyfredol eraill

### 14.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol eraill | | 69 | 66 |
| Eitemau taladwy masnach | | 24 | 10 |
| Eitemau taladwy eraill | | 49 | 1,178 |
| Croniadau | | 970 | 414 |
| Rhan bresennol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 11 | 52 | 45 |
| Rhan bresennol o fenthyciad NLF – llog derbyniadwy | | 132 | 133 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwad ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | | 198 | 830 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol oherwydd Incwm dros ben | 34 | 7 | |
| **Cyfanswm eitemau taladwy** | | **1,528** | **2,683** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy blwyddyn: | | | |
| Benthyciadau NLF | 11 | 11,613 | 11,665 |
| **Cyfanswm eitemau taladwy** | | **11,613** | **11,665** |

### 14.2 Balansau Mewnlywodraethol

| | Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
| Balansau â chyrff eraill y llywodraeth canolog | 984 | 2,275 | 11,613 | 11,665 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | – | – | – | – |
| Balansau ag ymddiriedolaeth GIG | – | 4 | – | – |
| Balansau â chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 16 | – | – | – |
| *Is-gyfanswm:* balansau mewnlywodraethol | 1,000 | 2,279 | 11,613 | 11,665 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 528 | 404 | – | – |
| **Cyfanswm eitemau taladwy** | **1,528** | **2,683** | **11,613** | **11,665** |

## 15. Darpariaeth am Ddyledion a Thaliadau

| | Cyfanswm Costau Ymddeol | yn Gynnar |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2010 | – | – |
| Wedi'i ddaparu yn y flwyddyn | – | – |
| Adfer gwerth darpariaethau diangen | – | – |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | – | – |
| Dadweindio disgownt | – | – |
| Balans ar 1 Ebrill 2011 | – | – |
| Wedi'i ddarparu yn y flwyddyn | 129 | 129 |
| Darpariaethau diangen yr adferwyd eu gwerth | – | – |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (20) | (20) |
| Dadweindio disgownt | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | **109** | **109** |

Cyfanswm costau ymddeol cynnor yw'r symiau sy'n daladwy i gyn-aelodau'r staff pan ganiateir iddynt ymddeol yn gynnar o'r gwasanaeth sifil. Telir y symiau hyn naill ai mewn taliadau misol (taliadau ACP) nes byddant yn cyrraedd 60 mlwydd oed, cyfandaliadau neu gyfuniad o'r ddau Mae ein Darparwr Pensiwn (Capita) yn amcangyfrif y symiau a ddylai fod yn daladwy i'r unigolion hyn a gwneir darpariaeth am y symiau hyn yn y cyfrifon.

## 16. Offerynnau Ariannol

### Categorïau Offerynnau Ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £000 | 31 Mawrth 2011 £000 |
|---|---|---|---|
| Arian | 13 | 232 | 837 |
| ***Benthyciadau ac Eitemau Derbynadwy< 1bl*** | | | |
| Eitemau Derbynadwy Eraill (gros) | 12.1 | 92 | 147 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol - cyfalaf | 12.1 | 52 | 45 |
| ***Benthyciadau ac eitemau derbynadwy > 1bl*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | 12.1 | 11,613 | 11,665 |
| **Swm cario Asedau Ariannol** | | **11,989** | **12,694** |
| | | | |
| **Dyledion Ariannol** | | | |
| ***Dyledion Ariannol ar gost amorteiddiedig*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol - cyfalaf | 14.1 | (11,665) | (11,710) |
| **Swm cario Dyledion Ariannol** | | **(11,665)** | **(11,710)** |

Gan fod gofynion ariannol yr adran yn cael eu diwallu gan y broses Amcanygrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyng wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn perthyn i gontractau am eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig yr Adran ac felly mae'r Adran yn agored i ychydig iawn o risg yn ymwneud â chredyd, hylifedd neu'r farchnad.

Ystyrir blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn fuddsoddiadau ac fe'u datgelir ar gost hanesyddol. Mae'r balansau o fewn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru. Yna fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Gwledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd y DBRW yn 1998. Yn sgil diddymu'r WDA yn 2006 mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ad-dalu'r benthyciad a'r llog, a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Ildir symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru i'r NLF. Cynhwysir balansau benthyciadau o fewn Masnach ac eitemau taladwy eraill.

## 17. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredol

Rhestrir ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod mae'r brydles yn dod i ben ynddo.

| | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| **Tir ac adeiladau:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 42 | 121 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | – | 113 |
| **Cyfanswm** | 42 | 234 |
| **Arall:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 81 | 90 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 50 | 43 |
| **Cyfanswm** | 131 | 133 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **173** | **367** |

Nid yw'n bosibl gwahanu'r taliadau rhenti tir ac adeiladau ar gyfer y prydlesi hyn.

## 18. Grantiau Elusennol

Ar 15 Medi 2011, lladdwyd pedwar glöwr yn drychinebus mewn digwyddiad ym Mhwll Glo Gleisionyn Ne Cymru.

Yn syth wedi'r digwyddiad, cytunodd Ysgriennydd Gwladol Cymru a'r Canghellor y byddai'r Llywodraeth (wedyn cytunwyd y byddai Swyddfa Cymru) yn sicrhau na fyddai buddiolwyr yr elusen a sefydlwyd ar eu colled, o ran Cymorth Rhodd, tra'i bod yn ceisio am statws elusennol. Yn ymarferol, roedd hwn yn gytundeb i dalu'r 25% y byddai'r sefydliad wedi gallu ei adhawlio fel Cymorth Rhodd tra'r oedd y Comisiwn Elusennau yn ystyried ei chais am statws elusennol. Gweithiodd Swyddfa Cymru'n agos â'r Comisiwn Elusennau i sicrhau y rheolid y broses hon mor gyflym â phosibl.

Gwnaeth Swyddfa Cymru daliad i'r elusen o £125,479 ym Mawrth 2012.

## 19. Trafodion Partïon Cysylltiedig

*Adrannau cysylltiedig a chyrff Llywodraeth Canolog eraill*

Mae Swyddfa Cymru'n ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael amrywiaeth o drafodion sylweddol ag ef yn ystod y flwyddyn.

Yn ychwanegol, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion arwyddocaol ag adrannau llywodraeth eraill yn bennaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyrff Llywodraeth Ganolog eraill.

Nid oes trafodion eraill â phartïon cysylltiedig eraill i adrodd amdanynt.

## 20. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 '*Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd*', ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Cyfrifon. Dehonglir hwn fel yr un dyddiad yr ardystir y Cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ar 4 Medi 2012, olynodd David Jones AS, Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

information & publishing solutions

Wedi'u cyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael gan:

**Ar-lein www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch SP 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau Cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion trwy'r Linell Boeth Seneddol Lo-call 0845 7 023474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

**Y Siop Lyfrau Seneddol**
12 Bridge Street, Parliament Square [Sgwar y Senedd] Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau Cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion Ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantiaid Achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-297873-5

9 780102 978735